**ATODIAD 1**

# Adroddiad Gwrthwynebu – Medi 2026

Cynnig i gau Ysgol Nebo

# CYNNWYS


1. CEFNDIR ..... 3

2. TROSOLWG O'R GWRTHWYNEBIADAU A'R PRIF THEMÂU ..... 4

3. CRYNODEB O’R GWRTHWYNEBIADAU STATUDOL AC YMATEB Y CYNGOR ..... 8

Thema 1: Darpariaeth bresennol Ysgol Nebo a'i rôl wrth ddiwallu anghenion dysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol ..... 8

Thema 2: Galwadau am Ystyriaeth Lawn i Gynnig Amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo ..... 16

Thema 3: Effaith ar Les, Profiad Addysgol a Threfniadau Teithio Dysgwyr ..... 23

Thema 4: Effaith y Cynnig ar y Gymraeg a'r Gymuned ..... 26

Thema 5: Effaith y Cynnig ar y Gymuned Leol ..... 32

Thema 6: Heriau i'r Broses Statudol a'r Broses Benderfynu ..... 38

Thema 7: Ystyriaethau Ariannol, Costau a Chyllido Addysg ..... 47

Thema 8: Ystyriaethau Strategol, Gwleidyddol a Pholisi Ehangach ..... 52

Thema 9: Dyfodol adeilad Ysgol Nebo, ei ddefnydd cymunedol a’r gofeb ryfel ..... 57

Thema 10: Gwrthwynebiad i'r cynnig a galwadau i ailystyried ..... 61

## 1. CEFNDIR

Ar 11 Chwefror 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd ganiatáu i'r Adran Addysg gynnal trafodaethau ffurfiol gyda Chorff Llywodraethol Ysgol Nebo a rhanddeiliaid perthnasol eraill ynghylch dyfodol yr ysgol, yn sgil pryderon ynghylch niferoedd dysgwyr yr ysgol. Yn dilyn hynny, sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol i ystyried sefyllfa'r ysgol ac ystod o opsiynau posibl ar gyfer ei dyfodol.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd gefnogi argymhelliad i gynnal ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

Cynhaliwyd y cyfnod ymgynghori statudol rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026. Yn ystod y cyfnod hwn, cafodd rhanddeiliaid a'r cyhoedd gyfle i gyflwyno eu safbwyntiau ar y cynnig. Wedi hynny, paratowyd Adroddiad Ymgynghori yn crynhoi'r materion a godwyd a darparu ymatebion y Cyngor i'r materion hynny.

Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori i Gabinet Cyngor Gwynedd ar 19 Mai 2026. Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad, penderfynodd y Cabinet gymeradwyo cyhoeddi Hysbysiad Statudol ar y cynnig, yn unol â gofynion Adran 48 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013.

Cyhoeddwyd yr Hysbysiad Statudol ar 3 Mehefin 2026. Y cynnig a gyhoeddwyd drwy'r Hysbysiad Statudol oedd cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen.

Mae copi o'r Hysbysiad Statudol a'r dogfennau cysylltiedig ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, cafodd unrhyw unigolyn gyfle i wrthwynebu'r cynnig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Daeth y cyfnod gwrthwynebu i ben ar 30 Mehefin 2026.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru ac mae'n crynhoi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r prif faterion a godwyd.

## 2. TROSOLWG O'R GWRTHWYNEBIADAU A'R PRIF THEMÂU

Derbyniwyd 20 gwrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

Yn ogystal, derbyniwyd deiseb gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nebo yn gwrthwynebu'r cynnig, gyda 358 o lofnodion. Galwodd y ddeiseb ar y Cyngor i ailystyried y cynnig i gau'r ysgol ac i roi ystyriaeth lawn i gynnig amgen y Corff Llywodraethol, sef cadw'r ysgol ar agor fel ysgol brif ffrwd a datblygu darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol a dysgwyr y mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt. Cyfeiriwyd hefyd at rôl yr ysgol fel rhan bwysig o'r gymuned leol, ei chyfraniad i gynnal yr iaith Gymraeg, a phryderon am effaith cau'r ysgol ar y gymuned a'i dyfodol. Mae'r materion a godwyd yn y ddeiseb wedi'u cynnwys o fewn y themâu perthnasol yn Adran 3 o'r adroddiad, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion hynny.

Roedd y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn codi nifer o faterion mewn perthynas â'r cynnig. Y themâu mwyaf cyffredin oedd:

- darpariaeth bresennol Ysgol Nebo a'i rôl wrth ddiwallu anghenion dysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- galwadau am ystyriaeth lawn i opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo;
- effaith y cynnig ar les, profiad addysgol a threfniadau teithio dysgwyr;
- effaith y cynnig ar y Gymraeg a'i chynaliadwyedd yn y gymuned;
- effaith y cynnig ar y gymuned leol;
- pryderon ynghylch y broses ymgynghori, ystyriaeth o dystiolaeth a gwneud penderfyniadau;
- ystyriaethau ariannol, costau a chyllido addysg;
- ystyriaethau strategol, gwleidyddol a pholisi ehangach;
- dyfodol adeilad Ysgol Nebo, ei ddefnydd cymunedol a'r gofeb ryfel; a
- gwrthwynebiad i'r cynnig a galwadau i ailystyried.

Roedd nifer o'r gwrthwynebiadau yn mynegi pryder ynghylch effaith y cynnig ar les disgyblion, darpariaeth i blant sydd angen mwy o gefnogaeth, y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw, a rôl Ysgol Nebo ym mywyd cymdeithasol a chymunedol yr ardal. Cyflwynwyd hefyd safbwyntiau ynghylch dyfodol ysgolion gwledig, trefniadau derbyn, cynllunio strategol, costau'r cynnig a dyfodol adeilad a safle'r ysgol.

Roedd nifer o wrthwynebwyr hefyd yn galw ar y Cyngor i ailystyried y cynnig ac i roi ystyriaeth bellach i'r cynnig amgen a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nebo, sef defnyddio'r ysgol fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol a dysgwyr y mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt.

Er mwyn cyflwyno'r gwrthwynebiadau mewn modd clir a strwythuredig, mae'r materion a godwyd wedi'u grwpio o dan themâu ac is-themâu. Mae'r rhestr gynnwys thematig isod yn nodi strwythur Adran 3, lle cyflwynir crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol o dan bob thema ac is-thema, ynghyd ag ymateb y Cyngor iddynt.

**Thema 1: Darpariaeth bresennol Ysgol Nebo a'i rôl wrth ddiwallu anghenion dysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol**

1.1 Rôl Ysgol Nebo wrth gefnogi plant sy'n ei chael yn heriol mewn ysgolion prif ffrwd mwy
1.2 Potensial Ysgol Nebo i ddarparu amgylchedd dysgu personol a meithringar i ddysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol
1.3 Pryderon ynghylch gwneud penderfyniad cyn cael darlun llawn o anghenion dysgwyr, y pwysau ar ddarpariaeth ADY a chynnwys yr Adroddiad ADY i'w gyhoeddi ym mis Medi 2026
1.4 Manteision dosbarthiadau llai a chefnogaeth unigol i ddysgwyr ag ADY neu sydd angen cymorth ychwanegol
1.5 Cynllunio strategol a chapasiti hirdymor darpariaeth ADY yng Ngwynedd

**Thema 2: Galwadau am ystyriaeth lawn i opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo**

2.1 Galwad i ailystyried opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo mewn modd agored a chynhwysfawr. "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth."
2.2 Cefnogaeth i'r opsiwn i ddatblygu Ysgol Nebo fel darpariaeth feithringar ac arbenigol i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol
2.3 Ysgol Nebo fel prosiect peilot arloesol i gefnogi dysgwyr a hwyluso dychweliad i addysg brif ffrwd Gymraeg
2.4 Manteision posibl yr opsiwn amgen o ran denu dysgwyr a chefnogi'r Gymraeg yn y gymuned
2.5 Pryderon ynghylch ystyriaeth o opsiynau amgen a galwad i ohirio'r penderfyniad hyd nes cyhoeddi'r Adroddiad ADY

**Thema 3: Effaith ar les, profiad addysgol a threfniadau teithio dysgwyr**

3.1 Effaith cau'r ysgol ar les a phrofiad dysgwyr
3.2 Manteision ysgol fach a chymorth unigol
3.3 Effaith teithio a throsglwyddo ar les a chefnogaeth dysgwyr
3.4 Pryderon ynghylch capasiti ysgolion cyfagos ac effaith bosibl ar les a datblygiad dysgwyr

**Thema 4: Effaith y cynnig ar y Gymraeg a'i chynaliadwyedd yn y gymuned**

4.1 Rôl Ysgol Nebo wrth gynnal y Gymraeg fel iaith fyw yn y gymuned
4.2 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg fel iaith fyw yn y gymuned
4.3 Pryderon bod y cynnig yn groes i amcanion Cymraeg 2050 ac ymrwymiadau'r Cyngor i ddiogelu'r Gymraeg
4.4 Effaith bosibl cau'r ysgol ar deuluoedd ifanc a'r Gymraeg

**Thema 5: Effaith y Cynnig ar y Gymuned Leol**

5.1 Pryderon ynghylch colli Ysgol Nebo fel calon y gymuned ac effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac ieithyddol ei chau
5.2 Pryderon ynghylch colli'r ysgol fel gofod ar gyfer gweithgareddau, gwirfoddoli a gwasanaethau cymunedol
5.3 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar hyfywedd hirdymor y pentref a dyfodol y gymuned wledig
5.4 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar les, cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd y gymuned
5.5 Pryderon ynghylch dibynnu ar gyfleusterau yn Llanllyfni fel mesur lliniaru ac effaith hynny ar drigolion lleol
5.6 Pryderon ynghylch effaith cau Ysgol Nebo ar y Gymraeg a chynaliadwyedd y gymuned wledig

**Thema 6: Pryderon ynghylch y broses ymgynghori, ystyriaeth o dystiolaeth a gwneud penderfyniadau**

6.1 Pryderon ynghylch didueddrwydd y broses, ystyriaeth o sylwadau'r gymuned ac ansawdd yr Adroddiad Ymgynghori
6.2 Pryderon nad oedd lleisiau'r plant wedi cael digon o sylw yn y broses
6.3 Pryderon ynghylch ystyriaeth o opsiwn amgen y Corff Llywodraethol a gwybodaeth am ddarpariaeth ADY yn y broses benderfynu
6.4 Pryderon ynghylch cydymffurfiaeth â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ac ystyriaeth o opsiynau amgen
6.5 Pryderon ynghylch didueddrwydd y broses a'r honiad bod penderfyniad i gau'r ysgol wedi'i wneud ymlaen llaw
6.6 Pryderon ynghylch effaith yr amserlen a'r trafodaethau am gau ar niferoedd dysgwyr a dewisiadau rhieni
6.7 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar ddysgwyr presennol, rhieni a pharhad mewn addysg ffurfio

**Thema 7: Materion Ariannol a Chynllunio Strategol**

7.1 Pryderon ynghylch y pwyslais ar gost fesul dysgwr wrth asesu gwerth addysgol a chymunedol Ysgol Nebo
7.2 Galwad i adolygu trefniadau cyllido ysgolion ac ystyried buddion cymunedol hirdymor
7.3 Pryderon ynghylch cysondeb penderfyniadau ariannol a'r strategaeth hirdymor ar gyfer darpariaeth addysg
7.4 Pryderon ynghylch diffyg dadansoddiad manwl ac arolwg proffesiynol i gefnogi costau cynnal a chadw'r ysgol
7.5 Pryderon ynghylch diffyg ystyriaeth i fanteision ariannol hirdymor cynllun peilot ADY yn Ysgol Nebo

**Thema 8: Ystyriaethau strategol, gwleidyddol a pholisi ehangach**

8.1 Galwad i ystyried effaith polisïau dalgylch, derbyn, tai a demograffeg ar gynaliadwyedd ysgolion a chymunedau gwledig
8.2 Cyfeiriadau at bolisi Plaid Cymru a'r ymrwymiad i ddiogelu ysgolion bach gwledig a gwasanaethau cymunedol
8.3 Galwad i adolygu trefniadau dalgylch a derbyn er mwyn cynyddu niferoedd mewn ysgolion lleol a chefnogi'r Gymraeg
8.4 Pryderon ynghylch effaith tai gwag, ail gartrefi a pholisïau cynllunio ar gymunedau gwledig a niferoedd dysgwyr
8.5 Pryderon ynghylch blaenoriaethau gwariant, moderneiddio addysg a gwerth parhaus ysgolion bach gwledig
8.6 Sylwadau ynghylch cyfrifoldeb gwleidyddol am benderfyniadau blaenorol

**Thema 9: Dyfodol adeilad Ysgol Nebo, ei ddefnydd cymunedol a'r gofeb ryfel**

9.1 Pryderon ynghylch ôl-ddefnydd yr adeilad a'i bwysigrwydd fel ased cymunedol
9.2 Pryderon ynghylch dyfodol yr adeilad a cholli adnodd cymunedol
9.3 Pryderon ynghylch dyfodol, stiwardiaeth a gwarchodaeth y gofeb ryfel

**Thema 10: Gwrthwynebiad i'r cynnig a galwadau i ailystyried**

10.1 Gwrthwynebiadau ffurfiol i'r cynnig i gau Ysgol Nebo
10.2 Cais i ailystyried neu atal y broses er mwyn asesu'r effeithiau ac ystyried dyfodol ysgolion gwledig
10.3 Galwad i ystyried atebion amgen er mwyn diogelu a chryfhau dyfodol Ysgol Nebo a'r gymuned leol
10.4 Cais i ohirio'r penderfyniad, cynnal asesiadau effaith llawn a rhoi ystyriaeth briodol i safbwyntiau rhanddeiliaid
10.5 Cais i ohirio'r penderfyniad hyd nes cwblhau gwaith pellach ar ddarpariaeth ADY ac ystyried rôl bosibl Ysgol Nebo

## 3. CRYNODEB O'R GWRTHWYNEBIADAU STATUDOL AC YMATEB Y CYNGOR

Yn unol â gofynion Adran 49 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, mae'r adran hon yn cyflwyno crynodeb o'r gwrthwynebiadau statudol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu ac ymateb y Cyngor i'r gwrthwynebiadau hynny. Er mwyn hwyluso'r broses o gyflwyno'r gwrthwynebiadau, maent wedi'u grwpio o dan nifer o themâu ac is-themâu.

### Thema 1: Darpariaeth bresennol Ysgol Nebo a'i rôl wrth ddiwallu anghenion dysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol

#### 1.1 Rôl Ysgol Nebo wrth gefnogi plant sy'n ei chael yn heriol mewn ysgolion prif ffrwd mwy

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Derbyniwyd gwrthwynebiadau yn ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) oedd yn mynegi pryderon cryf a pharhaus y byddai cau Ysgol Nebo yn gallu golygu colli amgylchedd bach, diogel, Cymraeg a meithringar i blant sydd angen lefel uwch o gefnogaeth. Cyfeiriwyd yn benodol at blant sy'n profi gorbryder, diffyg hyder, anawsterau canolbwyntio, niwroamrywiaeth, heriau dysgu neu anawsterau mewn ysgolion prif ffrwd. Roedd rhai ymatebwyr yn nodi nad yw'r plant hyn bob amser yn cyrraedd trothwy ffurfiol ADY, ond eu bod yn dal angen cefnogaeth ychwanegol. Pwysleisiwyd hefyd nad oes angen diagnosis meddygol er mwyn i blentyn gael ei adnabod fel un sydd angen cefnogaeth ddysgu ychwanegol, a dadleuwyd y dylid canolbwyntio ar anghenion y plentyn yn hytrach na'i statws ffurfiol o fewn y system ADY.<br><br>Dadleuwyd bod Ysgol Nebo eisoes, mewn ymarfer, yn darparu math o gefnogaeth neu ddarpariaeth feithringar i rai plant, ac y gallai cau'r ysgol orfodi plant allan o'r amgylchedd gefnogol yma. Cyfeiriwyd at achosion lle roedd plant, yn ôl yr ymatebwyr, wedi gallu ymdopi neu aros mewn addysg gynradd oherwydd natur fach, bersonol a chefnogol yr ysgol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Wrth ddatblygu'r cynnig, rhoddwyd ystyriaeth i effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr drwy'r asesiadau effaith a gyhoeddwyd fel rhan o'r broses ymgynghori statudol. Roedd y rhain yn cynnwys Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad Effaith Deddf Llesiant, ynghyd ag asesiadau perthnasol eraill. Mae'r asesiadau hyn ar gael ar wefan y Cyngor (www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg ) fel rhan o'r dogfennau a gyhoeddwyd yn ystod y broses statudol.<br><br>Nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanllyfni yn cynnwys mynediad at ystod ehangach o arbenigedd, cyfoedion a chefnogaeth broffesiynol, gyda'r nod o gynnal neu wella llesiant, cynhwysiant a phrofiad addysgol dysgwyr.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai anghenion pob dysgwr yn cael eu hystyried yn unigol wrth gynllunio'r trefniadau pontio i Ysgol Llanllyfni. Byddai hyn yn cynnwys ystyried lles emosiynol y dysgwyr, unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen arnynt, a'r camau priodol i'w cynorthwyo i ymgyfarwyddo â'r ysgol a'r amgylchedd dysgu newydd.<br><br>Fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Deddf Llesiant, mynegwyd pryderon yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu ynghylch yr effaith bosibl y gallai gweithredu'r cynnig ei chael ar blant bregus, gan gynnwys dysgwyr ag ADY, |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | dysgwyr ag anawsterau emosiynol, a dysgwyr eraill sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai'r anghenion hyn yn cael eu hystyried wrth gynllunio trefniadau pontio a chefnogaeth briodol ar gyfer y dysgwyr dan sylw.<br><br>Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021, rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a nodir mewn Cynllun Datblygu Unigol yn cael ei darparu ar gyfer dysgwr ag ADY.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau pontio yn cael eu cynllunio'n ofalus, mewn ymgynghoriad â'r dysgwyr, eu teuluoedd, Ysgol Nebo, Ysgol Llanllyfni a'r gwasanaethau cefnogi perthnasol, lle bo hynny'n briodol. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau parhad unrhyw ddarpariaeth a nodir mewn CDU, yn ogystal ag ystyried y cymorth priodol ar gyfer dysgwyr eraill sydd angen cefnogaeth ychwanegol ond nad oes ganddynt CDU. |

**1.2 Potensial Ysgol Nebo i ddarparu amgylchedd dysgu personol a meithringar i ddysgwyr sydd angen cefnogaeth ychwanegol**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Derbyniwyd gwrthwynebiadau oedd yn mynegi fod Ysgol Nebo mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu cefnogaeth ychwanegol i blant sydd angen amgylchedd dysgu mwy personol a meithringar. Mynegwyd hefyd y farn mai ychydig iawn o ddarpariaeth benodol sydd ar gael i gefnogi'r plant hyn, a bod athrawon sydd â'r sgiliau, y profiad a'r ddealltwriaeth i greu amgylchedd dysgu meithringar yn brin. Dadleuwyd fod Ysgol Nebo mewn sefyllfa ddelfrydol i ddarparu cefnogaeth o'r fath, ac y gellid trefnu'r ysgol i ddarparu ar gyfer tua 25 o blant gyda chostau ychwanegol cymharol isel.<br><br>Dadleuwyd gan rai ymatebwyr fod Ysgol Nebo, yn ymarferol, eisoes yn gwasanaethu nifer sylweddol o ddisgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol, gyda llawer yn mynychu o'r tu allan i'r dalgylch. Mynegwyd y farn y gallai hyrwyddo'r ddarpariaeth hon yn fwy ffurfiol ddarparu cefnogaeth i deuluoedd o ardaloedd eraill o Wynedd.<br><br>Mynegwyd y farn nad oedd y Cyngor wedi ystyried yn ddigonol effaith colli'r ddarpariaeth hon, nac y manteision posibl a allai ddeillio o'i hyrwyddo a'i ddatblygu ymhellach. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Nodir bod y dyletswydd i adnabod a chefnogi anghenion dysgwyr yn berthnasol i bob ysgol brif ffrwd. Yn hyn o beth, mae Ysgol Nebo, fel pob ysgol brif ffrwd arall, yn gyfrifol am ddarparu cymorth priodol i'w dysgwyr, gyda mynediad at wasanaethau ac arbenigeddau perthnasol yn ôl yr angen.<br><br>Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai Ysgol Llanllyfni, yn sgil maint yr ysgol (nifer uwch o ddysgwyr), yn gallu darparu ystod ehangach o adnoddau, profiadau dysgu, gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr, ynghyd â mynediad at gymorth a chefnogaeth briodol yn unol â'u hanghenion unigol.<br><br>Mewn perthynas â'r awgrym y dylid hyrwyddo neu ddatblygu Ysgol Nebo yn fwy ffurfiol fel darpariaeth benodol, nodir mai ysgol brif ffrwd yw'r ysgol ac nad yw'n ddarpariaeth arbenigol ddynodedig.<br><br>Ni fyddai'n briodol i'r Awdurdod hyrwyddo Ysgol Nebo fel darpariaeth arbenigol yn absenoldeb penderfyniad ffurfiol i sefydlu neu ddynodi darpariaeth o'r fath. Mae'r trefniadau derbyn sy'n berthnasol i ysgolion prif ffrwd yn seiliedig ar ddewis rhieni a'r polisi derbyn perthnasol, yn hytrach nag ar arbenigedd neu ddynodiad penodol.<br><br>Yn ystod y trafodaethau lleol, cyflwynwyd opsiwn amgen i Ysgol Nebo gynnig uned arbenigol i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys dysgwyr sy'n ei chael yn heriol mewn ysgolion neu leoliadau prif ffrwd mwy. Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r opsiwn hwn fel rhan o'r broses statudol, a chafodd ei werthuso yn erbyn nifer o ffactorau, gan gynnwys niferoedd dysgwyr a lleoedd gweigion, maint dosbarthiadau ac amrediad oedran, arweinyddiaeth a |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | staffio, adnoddau ariannol, y gymuned, yr iaith Gymraeg a ffactorau daearyddol a’r heriau sy’n wynebu Ysgol Nebo.<br><br>Yn dilyn pwyso a mesur manteision ac anfanteision yr opsiwn, daethpwyd i’r casgliad na fyddai’n ymateb yn ddigonol i’r heriau sy’n wynebu Ysgol Nebo. Ni ragwelwyd y byddai’r opsiwn yn cynyddu niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo. O ganlyniad, rhagwelwyd y byddai niferoedd isel, dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang yn parhau, ynghyd â’r heriau ariannol.<br><br>Wrth ddatblygu'r cynnig, rhoddwyd ystyriaeth i effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr drwy'r asesiadau effaith a gyhoeddwyd fel rhan o'r broses ymgynghori statudol. Roedd y rhain yn cynnwys Asesiad o’r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, Asesiad Effaith Deddf Llesiant ac Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ynghyd ag asesiadau perthnasol eraill. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiadau hyn er mwyn ystyried y sylwadau a'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r asesiadau a’r dogfennau perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg .<br><br>Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Adroddiad Gwrthwynebu, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiadau perthnasol ymhellach er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae’r asesiadau hyn ar gael yn Atodiad 3. |

**1.3 Pryderon ynghylch gwneud penderfyniad cyn cael darlun llawn o anghenion dysgwyr, y pwysau ar ddarpariaeth ADY a chynnwys yr Adroddiad ADY i'w gyhoeddi ym mis Medi 2026**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nododd rhai ymatebwyr bryder y gallai'r Cabinet wneud penderfyniad ynghylch dyfodol Ysgol Nebo heb ddeall yn llawn sefyllfa bresennol plant sy'n cael trafferth mewn ysgolion prif ffrwd, na'r penderfyniadau pellach sydd i'w gwneud ynghylch cefnogi'r plant hynny ym Medi 2026. Mynegwyd y gallai Ysgol Nebo fod mewn sefyllfa i barhau i ddarparu cefnogaeth o safon uchel i ddisgyblion o'r fath, ac na ddylid cau'r ysgol cyn bod y darlun hwnnw wedi'i ystyried yn llawn.<br><br>Nodwyd pryderon ynghylch darlun ehangach darpariaeth ADY yng Ngwynedd. Cyfeiriwyd at adroddiad ADY i'w gyhoeddi ym Medi 2026, a ddisgrifiwyd fel adroddiad a fyddai'n cynnwys ystyriaeth o blant ag ADY yn ogystal â phlant nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ffurfiol ond sy'n wynebu anawsterau eraill yn yr ysgol. Mynegwyd y farn nad oedd y gor-alw presennol am ddarpariaeth ADY ffurfiol, na goblygiadau'r adroddiad ADY oedd i'w gyhoeddi, wedi cael eu hystyried yn ddigonol.<br><br>Cyfeiriodd rhai at y posibilrwydd bod penderfyniad yn cael ei wneud cyn i'r darlun llawn fod ar gael. Dadleuwyd nad yw anghenion rhai plant nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ffurfiol ar gyfer ADY bob amser yn cael eu cydnabod yn ddigonol, er eu bod yn dal i gael trafferth yn yr ysgol. Mynegwyd y farn y gall hyn gael effaith ar y plant eu hunain, ar eu cyd-ddisgyblion ac ar athrawon sy'n ceisio darparu addysg o safon uchel i bawb. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Nodir fod y disgwyliad i adnabod a chefnogi anghenion dysgwyr yn berthnasol i bob ysgol brif ffrwd. Yn hyn o beth, mae Ysgol Nebo, fel pob ysgol brif ffrwd arall, yn gyfrifol am ddarparu cymorth priodol i'w dysgwyr, gyda mynediad at wasanaethau ac arbenigeddau perthnasol yn ôl yr angen.<br><br>Yn ogystal, gall ysgolion mwy ddarparu ystod ehangach o adnoddau, profiadau dysgu, gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr, ynghyd â mynediad at gymorth a chefnogaeth briodol yn unol â'u hanghenion unigol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanllfyni yn cynnwys mynediad at ystod ehangach o arbenigedd, cyfoedion a chefnogaeth broffesiynol, gyda'r nod o gynnal neu wella llesiant, cynhwysiant a phrofiad addysgol dysgwyr.<br><br>Mae'r cynnig i gau Ysgol Nebo wedi'i ddatblygu a'i asesu yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i'r holl ffactorau perthnasol sy'n ofynnol o dan y Cod, gan gynnwys yr effaith ar ddysgwyr, ansawdd a safonau addysg, trefniadau ADY, y gymuned, y Gymraeg a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y broses statudol.<br><br>Wrth ddatblygu'r cynnig, rhoddwyd ystyriaeth i effaith bosibl y cynnig ar ddysgwyr drwy'r asesiadau effaith a gyhoeddwyd fel rhan o'r broses ymgynghori statudol. Roedd y rhain yn cynnwys Asesiad Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg, Asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Asesiad Cydraddoldeb ac asesiadau perthnasol eraill. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiadau hyn er mwyn ystyried y sylwadau a'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae'r asesiadau hyn ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg . |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Fel rhan o'r gwaith o baratoi'r Adroddiad Gwrthwynebu, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiadau perthnasol ymhellach er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Mae'r asesiadau hyn ar gael yn Atodiad 3.<br><br>Mewn ymateb i'r sylwadau sy'n ymwneud â'r adroddiad arfaethedig ar ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), nodir bod ystyriaeth ehangach o ddarpariaeth ADY yn fater parhaus i'r Awdurdod Lleol, a bod anghenion dysgwyr unigol yn cael eu hystyried yn barhaus drwy'r trefniadau statudol presennol. Mae'r broses statudol ar ddyfodol Ysgol Nebo wedi'i chynnal ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael ar y pryd. Pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i weithredu'r cynnig, byddai trefniadau pontio priodol a chefnogaeth addas ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn cael eu cynllunio a'u hystyried yn unol ag anghenion unigol y dysgwyr. |

**1.4 Manteision dosbarthiadau llai a chefnogaeth unigol i ddysgwyr ag ADY neu sydd angen cymorth ychwanegol**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyfeiriwyd at ymchwil sydd, yn ôl rhai ymatebwyr, yn dangos bod dosbarthiadau llai yn gweithio'n well i blant sy'n profi gorbryder, diffyg hyder ac anawsterau dysgu.<br><br>Cyfeiriwyd at ddisgyblion ADY neu ddisgyblion sydd angen mwy o gefnogaeth, gan nodi bod ysgol â niferoedd llai, ym marn rhai ymatebwyr, yn gallu bod yn llawer gwell i'r plant hyn. Nodwyd datganiadau megis na all 'cyfrifiadur drud' ddisodli aelod o staff ymroddedig. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor o'r farn bod cefnogaeth effeithiol i ddysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol wedi'i chyfyngu i ysgolion bach yn unig. Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb i adnabod ac ymateb i anghenion ei dysgwyr, gyda mynediad at wasanaethau ac arbenigeddau perthnasol yn unol ag anghenion unigol y dysgwr.<br><br>Yn ogystal, gall ysgolion mwy, oherwydd eu maint a'u nifer uwch o ddysgwyr, ddarparu ystod ehangach o adnoddau, profiadau dysgu, gweithgareddau a chyfleoedd cymdeithasol i ddysgwyr, ynghyd â mynediad at gymorth a chefnogaeth briodol yn unol â'u hanghenion unigol. |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn Ysgol Llanllyfni yn cynnig mynediad at ystod ehangach o arbenigedd, cyfoedion a chefnogaeth broffesiynol, gyda'r nod o gynnal neu wella llesiant, cynhwysiant a phrofiad addysgol dysgwyr. |

**1.5 Cynllunio strategol a chapasiti hirdymor darpariaeth ADY yng Ngwynedd**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyfeiriwyd at y ffaith fod Ysgol Hafod Lon, a gynlluniwyd ar gyfer 80 o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, bellach yn addysgu tua 135 o ddisgyblion, gan olygu bod lleoedd ac adnoddau presennol wedi cael eu hailddefnyddio i greu capasiti ychwanegol. Dadleuwyd bod hyn yn dystiolaeth o bwysau cynyddol ar ddarpariaeth ADY ac fe'i defnyddiwyd i gwestiynu'r cynllunio strategol hirdymor ar gyfer lleoli a chefnogi dysgwyr ag anghenion ychwanegol yn y sir.<br><br>Cyfeiriwyd at safle hen Ysgol Felinwnda, sydd wedi'i adnewyddu, a nodwyd mai dim ond 2 ddysgwyr ei fynychu, gan ddadlau bod hyn yn golygu cost i'r pwrs cyhoeddus ac yn codi cwestiynau ynghylch cysondeb y dull gweithredu mewn perthynas â defnydd o adnoddau addysgol a chyllid addysg. Yn y cyd-destun hwn, mynegwyd pryder ynghylch y rhesymeg ariannol dros y cynnig i gau Ysgol Nebo, gan nodi bod gwariant tebyg wedi'i ganiatáu mewn sefyllfaoedd eraill, ac y dylid egluro'n ehangach y cynlluniau a'r strategaethau sydd ar waith ar gyfer darpariaeth addysg hirdymor yng Ngwynedd.<br><br>Mynegwyd y farn nad yw'n gwneud synnwyr cau ysgol sydd, yn eu barn hwy, eisoes â hanes profedig o ddarparu amgylchedd dysgu meithringar, tîm addysgu profiadol a chefnogaeth gref gan y gymuned leol, ac a allai ddarparu ar gyfer mwy o blant yn y dyfodol. Cyfeiriwyd at ddisgwyliadau y bydd nifer y plant sydd angen | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Er bod rhai ymatebwyr wedi cyfeirio at ddarpariaethau a safleoedd addysgol eraill o fewn y sir, nodir bod pob darpariaeth yn gwasanaethu dibenion, anghenion a chyd-destunau gwahanol, ac felly bod y cynnig hwn wedi'i asesu ar sail amgylchiadau ac anghenion Ysgol Nebo yn benodol.<br><br>Fodd bynnag, nodir mai dyfodol Ysgol Nebo yw ffocws y broses statudol hon, ac fe gynhelir y broses yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r adolygiad presennol wedi'i seilio ar yr heriau sy'n wynebu'r ysgol honno, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel.<br><br>Yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniwyd nifer o sylwadau ynghylch darpariaeth ADY, y galw am gymorth ychwanegol i ddysgwyr, cynllunio strategol y ddarpariaeth honno ar draws y sir, a'r potensial i ddatblygu defnyddiau amgen ar gyfer Ysgol Nebo, gan gynnwys darpariaeth ADY.<br><br>Cafodd y materion hyn eu hystyried fel rhan o'r gwaith o werthuso'r cynnig a'r opsiynau rhesymol eraill a gyflwynwyd. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| cefnogaeth ychwanegol yn cynyddu'n sylweddol yn y dyfodol, a dadleuwyd bod hyn yn cryfhau'r achos dros gadw a defnyddio darpariaeth o'r fath.<br><br>Mynegwyd pryder hefyd, unwaith y bydd ysgol wedi cau, na fydd modd ei hailagor yn hawdd, ac na fydd athrawon profiadol a gollir i'r awdurdod yn hawdd eu disodli. Dadleuwyd y gallai cau ysgol sydd eisoes mewn sefyllfa i dderbyn a chefnogi plant ag anghenion ychwanegol gael ei weld fel camgymeriad yn y dyfodol. | Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth lawn i'r materion a godwyd, gan gynnwys y sylwadau mewn perthynas â darpariaeth ADY a defnydd amgen posibl o safle'r ysgol, a chynhaliwyd gwerthusiad ac asesiadau effaith pellach o'r cynnig ynghyd â'r opsiynau amgen a gyflwynwyd yn y Ddogfen Ymgynghori ac yn ystod y cyfnod ymgynghori.<br><br>Ar sail y dystiolaeth a ystyriwyd, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr un o'r opsiynau amgen a gyflwynwyd, gan gynnwys datblygu'r ysgol fel darpariaeth ADY, yn ymateb i'r heriau sy’n wynebu Ysgol Nebo.<br><br>Rhoddir ystyriaeth fanylach i'r opsiwn amgen sy'n ymwneud â datblygiad posibl Ysgol Nebo fel darpariaeth ADY o dan Thema 2 isod.<br><br>Mae'r Cyngor felly yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r cynnig fwyaf addas i fynd i'r afael â'r heriau sy’n wynebu’r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae’r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae’r cynnig yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**Thema 2: Galwadau am Ystyriaeth Lawn i Gynnig Amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo**

**2.1 Galwad i ailystyried cynnig Corff Llywodraethol Ysgol Nebo mewn modd agored a chynhwysfawr. "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth."**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Galwodd rhai ymatebwyr, gan gynnwys Corff Llywodraethol Ysgol Nebo, ar y Cabinet i ailystyried mewn modd gwirioneddol agored y cynnig amgen a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nebo, a rhoi ystyriaeth lawn iddo cyn gwneud penderfyniad terfynol.<br><br>Roedd nifer o ymatebwyr yn feirniadol iawn o'r hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel diffyg ystyriaeth lawn i gynnig Corff Llywodraethol Ysgol Nebo. Roedd y cynnig yn cael ei gyflwyno ganddynt fel opsiwn pendant i gadw'r ysgol ar agor fel ysgol brif ffrwd, ac i ddatblygu darpariaeth arbenigol neu feithringar ar y safle fel prosiect peilot i gefnogi plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, neu blant y mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt.<br><br>Mynegodd nifer o ymatebwyr y farn na roddwyd ystyriaeth lawn i ymateb y Llywodraethwyr cyn cyhoeddi'r Hysbysiad, a mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig i "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth.".<br><br>Galwodd rhai ymatebwyr ar y Cabinet i roi ystyriaeth lawn i'r cynnig hwn fel dewis amgen i'r cynnig i gau'r ysgol.<br><br>Nodwyd bod angen i'r Cabinet ailystyried y cynnig mewn modd gwirioneddol agored, a bod angen ymateb penodol iddo yn hytrach na'i ystyried fel pwynt cyffredinol yn unig. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Cyflwynwyd opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Yn dilyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r opsiwn, ochr yn ochr â'r sylwadau, y dystiolaeth ychwanegol a'r opsiynau amgen rhesymol eraill a gyflwynwyd drwy'r broses.<br><br>Mae manylion yr opsiwn amgen, ynghyd â'r gwerthusiad o'r opsiynau amgen a ystyriwyd, wedi'u cofnodi yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r dogfennau ategol cysylltiedig. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd yn www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg .<br><br>Yn dilyn gwerthuso'r opsiwn, daeth y Cyngor i'r casgliad nad oedd yn darparu ymateb digonol na chynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo.<br><br>O dan yr opsiwn yma, rhagwelir y byddai'r drefn a'r meini prawf mynediad yn parhau'n unol â'r trefniadau presennol, heb unrhyw newid i'r drefn mynediad, na statws yr ysgol. O ystyried y byddai'r trefniadau mynediad presennol yn parhau heb eu newid, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad sylweddol yn y lefel uchel o lefydd gweigion. Yn sgil hynny, rhagwelir y byddai'r heriau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagamcanion niferoedd isel yn y dyfodol, a'r heriau ariannol cysylltiedig, gan gynnwys costau uchel fesul dysgwr, yn parhau heb eu datrys.<br><br>Drwy gydol y broses statudol, gweithredodd y Cyngor yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth a'r |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | dystiolaeth berthnasol, yr asesiadau effaith, yr opsiynau amgen a gyflwynwyd, gan gynnwys cynnig amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo, ynghyd â'r sylwadau a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol.<br><br>Yn dilyn y broses hon, daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo oedd yr opsiwn a oedd yn darparu'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy’n wynebu’r ysgol.<br><br>Mae'r Cyngor felly yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r cynnig fwyaf addas i fynd i'r afael â'r heriau sy’n wynebu’r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae’r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae’r cynnig yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**2.2 Cefnogaeth i'r opsiwn i ddatblygu Ysgol Nebo fel darpariaeth feithringar ac arbenigol i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig i "Ysgol Nebo i gynnig safle fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol, lle mae addysg brif ffrwd yn heriol iddynt, gan gynnwys disgyblion gyda CDU ar gyfer anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol a phobl ifanc eraill ag anghenion iechyd meddwl gan gynnwys pryder a niwro-amrywiaeth."<br><br>Dadleuwyd fod gan Ysgol Nebo eisoes brofiad ac arbenigedd helaeth o gefnogi plant sy'n profi gorbryder, neu sy'n cyflawni is-law'r disgwyl, niwro-amrywiaeth neu anawsterau mewn lleoliadau mwy, a bod yr awyrgylch cartrefol, y dosbarthiadau llai a'r staff profiadol a gofalgar yn addas iawn ar gyfer diwallu anghenion disgyblion o'r fath.<br><br>Mynegwyd y farn y gallai'r cynnig ddarparu cefnogaeth i blant sy'n ei chael yn anodd ffynnu mewn addysg brif ffrwd, helpu rhai disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref i ddychwelyd i'r system addysg, a chynnig model newydd o ddarpariaeth gynradd i ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr Gwynedd.<br><br>Dadleuwyd hefyd fod y cynnig yn gyfle i ymateb i ddau fater ar yr un pryd, sef niferoedd isel yn y dalgylch ac anghenion cynyddol plant sydd angen mwy o gefnogaeth mewn amgylcheddau llai a mwy meithringar. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Cyflwynwyd opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Yn dilyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r opsiwn, ochr yn ochr â'r sylwadau, y dystiolaeth ychwanegol a'r opsiynau amgen rhesymol eraill a gyflwynwyd drwy'r broses.<br><br>Mae manylion yr opsiwn amgen, ynghyd â'r gwerthusiad o'r opsiynau amgen a ystyriwyd, wedi'u cofnodi yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r dogfennau ategol cysylltiedig. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd yn www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg .<br><br>Yn dilyn gwerthuso'r opsiwn, daeth y Cyngor i'r casgliad nad oedd yr opsiwn amgen yn darparu ymateb digonol na chynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo.<br><br>O dan yr opsiwn yma, rhagwelir y byddai'r drefn a'r meini prawf mynediad yn parhau'n unol â'r trefniadau presennol, heb unrhyw newid i'r drefn mynediad, na statws yr ysgol. O ystyried y byddai'r trefniadau mynediad presennol yn parhau heb eu newid, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad sylweddol yn y lefel uchel o lefydd gweigion. Yn sgil hynny, rhagwelir y byddai'r heriau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagamcanion niferoedd isel yn y dyfodol, a'r heriau ariannol cysylltiedig, gan gynnwys costau uchel fesul dysgwr, yn parhau heb eu datrys.<br><br>Mae'r Cyngor felly yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r cynnig fwyaf addas o fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | mae’r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae’r cynnig yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**2.3 Ysgol Nebo fel prosiect peilot arloesol i gefnogi dysgwyr a hwyluso dychweliad i addysg brif ffrwd Gymraeg**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Awgrymwyd y gallai'r ysgol weithredu fel prosiect peilot arloesol i asesu sut y gallai'r model hwn wasanaethu rhai disgyblion cynradd yn well, gan ddarparu manteision addysgol, llesol ac ariannol yn y tymor byr a'r tymor hir.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at y posibilrwydd o gefnogi plant sy'n cael eu haddysgu gartref i ddychwelyd i addysg brif ffrwd Gymraeg, ac at y syniad y gallai Ysgol Nebo fod yn brosiect arloesol a chost-effeithiol i ddatblygu ffordd newydd o gefnogi plant cynradd yng Ngwynedd. | Fel uchod (Gweler ymateb 2.2 uchod) |

**2.4 Manteision posibl yr opsiwn amgen o ran denu dysgwyr a chefnogi'r Gymraeg yn y gymuned**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Awgrymwyd y gallai'r opsiwn amgen hefyd ddenu rhai disgyblion sy'n cael eu haddysgu gartref ar hyn o bryd i addysg cyfrwng Cymraeg brif ffrwd, a chyfrannu at gynnal y Gymraeg fel iaith fyw bob dydd yn y gymuned. | Fel uchod (Gweler ymateb 2.2 uchod) |

**2.5 Pryderon ynghylch ystyriaeth o opsiynau amgen a galwad i ohirio'r penderfyniad hyd nes cyhoeddi'r Strategaeth ADY**

| **Crynodeb o'r materion** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|
| Cyfeiriwyd hefyd at y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a mynegwyd y farn nad oedd y Cyngor wedi dangos bod y cynnig y Corff Llywodraethol na'r opsiynau amgen eraill wedi'u hystyried yn gydwybodol cyn symud ymlaen â'r cynnig i gau'r ysgol.<br><br>Galwyd hefyd am ohirio unrhyw benderfyniad terfynol nes byddai Adroddiad Strategaeth ADY Cyngor Gwynedd wedi'i gyhoeddi a'i ystyried, gan nodi bod dros 200 o blant yn cael eu haddysgu gartref a llawer mwy yn gweld dosbarthiadau mawr yn heriol, ac y gallai Ysgol Nebo ffurfio rhan o ateb ehangach i'r heriau hyn. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau hyn.<br><br>Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn cyflwyno trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig drwy sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau ond bod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol. Mae Ysgol Nebo wedi'i dynodi'n ysgol wledig at ddibenion y Cod, ac o ganlyniad mae'n ofynnol dilyn cyfres ychwanegol o weithdrefnau a meini prawf wrth ystyried unrhyw gynnig i'w chau.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y cynnig wedi'i asesu'n benodol yn erbyn y ffactorau statudol sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae'r Cyngor yn hyderus bod yr holl brosesau, asesiadau a gofynion ychwanegol a bennir yn y Cod ar gyfer ysgolion gwledig wedi'u dilyn yn llawn. Dim ond ar ôl cynnal yr asesiadau effaith perthnasol, ystyried pob opsiwn amgen rhesymol yn gydwybodol, a dod i'r casgliad nad oedd yr un ohonynt yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r heriau a wynebir gan yr ysgol, y daethpwyd i'r farn bod y cynnig i gau Ysgol Nebo yn briodol i'w symud ymlaen.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo fel rhan o'r broses hon. Mae manylion y cynnig, ynghyd â'r gwaith o asesu'r opsiynau amgen cyn ac ar ôl yr ymgynghoriad statudol, wedi'u cofnodi yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r dogfennau ategol cysylltiedig, sydd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Yn dilyn gwerthuso opsiwn y Corff Llywodraethol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. O dan yr opsiwn hwn, byddai Ysgol Nebo yn parhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd gyda'r un trefniadau a meini prawf mynediad. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrlon yn nifer y dysgwyr nac yn lleihau'r nifer uchel o lefydd gwag. Byddai'r heriau presennol sy'n ymwneud â niferoedd isel |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | iawn o ddysgwyr, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel yn y dyfodol, patrwm sefydledig o ddewis rhieni a chost fesul dysgwr sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol yn debygol o barhau.<br><br>Yn dilyn ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, daeth y Cyngor i'r casgliad nad oedd yr un o’r opsiynau amgen yn darparu ymateb addas na chynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.<br><br>Mewn perthynas â'r sylwadau ynghylch Adroddiad Strategaeth ADY Cyngor Gwynedd, nodir bod gwaith cynllunio strategol ar gyfer darpariaeth ADY yn fater ar wahân i'r broses statudol hon. Cynhaliwyd y broses ar ddyfodol Ysgol Nebo ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth berthnasol, yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.<br><br>Mae'r Cyngor felly yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r cynnig fwyaf addas i fynd i'r afael â'r heriau sy’n wynebu’r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae’r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae’r cynnig yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

## Thema 3: Effaith ar Les, Profiad Addysgol a Threfniadau Teithio Dysgwyr

### 3.1 Effaith cau’r ysgol ar les a phrofiad dysgwyr

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Derbyniwyd sylwadau am les a phrofiad disgyblion yn mynegi pryder cryf y gallai cau'r ysgol gael effaith andwyol ar les plant a theuluoedd. Cyfeiriwyd at golli amgylchedd cyfarwydd a sefydlog, ac at effaith bosibl hynny ar hyder, hapusrwydd ac ymdeimlad o berthyn plant. Roedd rhai sylwadau'n cyfeirio at effaith 'ddinistriol' ar ddisgyblion a'r gymuned.<br><br>Dywedodd rhai ymatebwyr fod Ysgol Nebo yn cynnig amgylchedd diogel, gofalgar a chefnogol lle mae pob plentyn yn cael sylw unigol. Dadleuwyd gan rai ymatebwyr fod y cynnig i gau’r ysgol yn gorfodi plant i adael amgylchedd dysgu cefnogol ac yn gorfodi rhieni i wneud y penderfyniad anodd i dynnu eu plant o'r ysgol. Dadleuwyd bod y berthynas agos rhwng staff, disgyblion a rhieni mewn ysgol fach yn cyfrannu'n sylweddol at les emosiynol a llwyddiant addysgol y plant. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Fel rhan o’r broses statudol, cynhaliwyd asesiadau effaith ar y cynnig.<br><br>Mae’r Asesiad o’r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg yn dod i’r casgliad y rhagwelir y byddai’r ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen arfaethedig (Ysgol Llanllyfni) yn cyfateb, fan leiaf, i’r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Nebo o ran ansawdd a safonau addysg. Yn ogystal, nodir y gall ysgolion sydd â niferoedd uwch o ddysgwyr gynnig map darpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy ffurfiol, a gwell capasiti i gydlynu cefnogaeth ADY ac ymyriadau penodol, sy’n gallu lliniaru rhai o’r risgiau a nodwyd gan ymatebwyr.<br><br>Nodir yn yr asesiad effaith Deddf Llesiant a Chenedlaethau’r dyfodol fod y Cyngor yn cydnabod, pe byddai Ysgol Nebo yn cau, y gall fod peth effaith negyddol ar les dysgwyr yn ystod y cyfnod pontio. Pe byddai Ysgol Nebo yn cau, byddai’r awdurdod a’r ysgol amgen yn cydweithio’n agos â’r ysgol sy’n cau, gyda’r dysgwyr a’u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi’r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgol newydd. Rhagwelir y byddai trefniadau pontio sydd wedi’u cynllunio’n ofalus, gyda chefnogaeth briodol, yn gallu lliniaru effeithiau negyddol a chefnogi parhad cynnydd addysgol.<br><br>Mae’r Cyngor yn parhau o’r farn y byddai’r cynnig yn sicrhau bod plant yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr. |

**3.2 Manteision Ysgol Fach a Chymorth Unigol**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai ymatebwyr yn herio'n uniongyrchol y syniad bod ysgol fwy o reidrwydd yn cynnig addysg well. Cyfeiriwyd at fanteision ysgol fach, dosbarthiadau llai, perthnasoedd agos rhwng staff, rhieni a disgyblion, a'r gallu i roi sylw unigol.<br><br>Yn benodol, nodwyd bod dosbarthiadau llai yn gallu bod yn well i blant sy'n profi gorbryder, diffyg hyder neu anawsterau dysgu. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliwyd Asesiad o Effaith debygol y cynnig ar Ansawdd a Safonau Addysg, ac fe’i diweddarwyd yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Mae’r asesiad diwygiedig yn cydnabod bod perfformiad presennol Ysgol Nebo wedi’i werthuso fel ‘Da’ gan Estyn, a bod y ddarpariaeth bresennol yn cynnig profiad addysgol cadarnhaol i’r dysgwyr sy’n mynychu’r ysgol ar hyn o bryd.<br><br>Yn yr un cyd-destun, mae’r Cyngor o’r farn fod y ddarpariaeth a gynigir yn Ysgol Llanllyfni, fel yr ysgol amgen arfaethedig, yn cynnwys dosbarthiadau o faint mwy addas ag ystod oed llai, a all gynnig manteision i rai dysgwyr. Gallai hyn gynnwys mwy o gyfleoedd i ddysgu a chymdeithasu gyda chyfoedion o’r un oed.<br><br>Fodd bynnag, nodir fod yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo wedi’i gynnal gan fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy’n parhau’n isel yn y tymor canolig a’r tymor hir. Yn ogystal, dengys patrymau dewis yn y dalgylch fod y mwyafrif o ddysgwyr yn dewis mynychu ysgolion eraill. Ar sail cymharu adroddiadau Estyn ac asesu’r opsiynau yn erbyn y meini prawf perthnasol, dengys yr Asesiad Effaith Ansawdd a Safonau Addysg y byddai gweithredu’r cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn debygol o gael effaith niwtral neu rannol bositif ar ansawdd a safonau addysg. Nodir bod y ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb, fan lleiaf, i’r ddarpariaeth bresennol ac yn galluogi dysgwyr i gael eu haddysgu ochr yn ochr â mwy o gyfoedion o’r un oedran. |

**3.3 Effaith teithio a throsglwyddo ar les a chefnogaeth dysgwyr**

| **Crynodeb o'r materion** | **Ymateb y Cyngor** |
|---|---|
| Nodwyd pryderon clir hefyd ynghylch teithio, gan gynnwys pellteroedd hirach, diwrnodau hirach, mwy o amser ar gludiant a llai o amser gyda theuluoedd neu yn y gymuned.<br><br>Mynegwyd pryder y gallai trosglwyddo disgyblion i ysgolion eraill leihau'r cymorth unigol sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion y broses statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar drefniadau teithio mewn perthynas â'r cynnig, ac fe'i diweddarwyd yn dilyn ystyriaeth o'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.<br><br>Fe nodir yn yr asesiad effaith, pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Nebo a chynnig addysg i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y byddai effaith ar drefniadau teithio i'r plant. Fodd bynnag ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Nebo yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol. Nodir y byddai cludiant i'r ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Addysg Cyngor Gwynedd lle bo'n berthnasol, ac ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Nebo yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol na defnyddio llwybrau i'r ysgol a ystyrir yn anniogel.<br><br>Mae'r asesiad effaith debygol o drefniadau teithio ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Mewn perthynas â'r sylwadau ynghylch cymorth unigol i ddysgwyr, nodir nad yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai trosglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni yn arwain at leihad yn y cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt. Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb i adnabod ac ymateb i anghenion ei dysgwyr, gyda mynediad at gymorth ac arbenigedd perthnasol yn unol ag anghenion unigol.<br><br>Yn ogystal, nodir yn yr Asesiad o'r Effaith Debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg y rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth addysgol yn yr ysgol amgen arfaethedig (Ysgol Llanllyfni) yn cyfateb, fan leiaf, i'r ddarpariaeth bresennol yn Ysgol Nebo o ran ansawdd a safonau addysg. Yn ogystal, nodir y gall ysgolion sydd â niferoedd uwch o ddysgwyr gynnig map darpariaeth ehangach, strwythurau cymorth mwy ffurfiol, a gwell capasiti i gydlynu cefnogaeth ADY ac ymyriadau penodol, sy'n gallu lliniaru rhai o'r risgiau a nodwyd gan ymatebwyr. |

**3.4 Pryderon ynghylch capasiti ysgolion cyfagos ac effaith bosibl ar les a datblygiad dysgwyr**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nodwyd pryder y gallai ysgolion cyfagos gael eu gorlwytho o ganlyniad, ac y gallai hynny gael effaith negyddol ar les a datblygiad y disgyblion. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Ar hyn o bryd (Ionawr 2026), mae 59 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 a 13 o ddisgyblion Meithrin yn mynychu Ysgol Llanllyfni. Dengys rhagamcanion yr ysgol y bydd 72 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 11 o ddisgyblion Meithrin yn mynychu'r ysgol ym Medi 2028.<br><br>Capasiti Ysgol Llanllyfni yw 103 o lefydd ar gyfer dysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 a 14 o lefydd Meithrin. Mae hyn yn golygu bod 44 o lefydd gweigion yn yr ysgol ar hyn o bryd, ynghyd ag un lle gwag yn y dosbarth Meithrin. O ganlyniad, mae gan Ysgol Llanllyfni ddigon o gapasiti i dderbyn dysgwyr Ysgol Nebo, gan gynnwys o fewn y rhagamcanion disgyblion ar gyfer y blynyddoedd i ddod.<br><br>Mae'r Cyngor felly yn fodlon bod capasiti'r ysgol yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir yn y dyfodol, ac nad yw'r cynnig yn debygol o arwain at orlenwi nac at bwysau annerbyniol ar gapasiti'r ysgol. |

## Thema 4: Effaith y Cynnig ar y Gymraeg a'r Gymuned

**4.1 Rôl Ysgol Nebo wrth gynnal yr iaith Gymraeg fel iaith fyw yn y gymuned**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Derbyniwyd nifer o sylwadau ynglŷn a'r effaith ar yr iaith Gymraeg. Disgrifiwyd Ysgol Nebo fel rhan annatod o'r gymuned ac fel sefydliad sy'n chwarae rôl allweddol wrth gynnal a hyrwyddo'r Gymraeg. Roedd rhai ymatebwyr yn nodi'n benodol y byddai cau'r ysgol yn peri risg sylweddol i gynaliadwyedd y Gymraeg yn yr ardal, ac yn gam yn erbyn dyfodol addysg gynradd Gymraeg yn y cylch. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Ieithyddol, gyda'r materion a godwyd gan ymgynghorai yn cael eu hystyried wrth lunio'r |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Mynegwyd pryder hefyd fod y Gymraeg eisoes yn fregus mewn rhannau o gymuned Nebo a Nasareth ac y gallai cau'r ysgol gyflymu'r dirywiad hwnnw.<br><br>Nodwyd pryder nad mater o gyfrwng addysg yn unig yw hyn. Dadleuwyd bod yr ysgol yn cyfrannu at y Gymraeg fel iaith fyw bob dydd, drwy greu cyfleoedd i blant, rhieni a thrigolion glywed a defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd cymunedol. Roedd rhai ymatebwyr yn rhybuddio y gallai tynnu'r ysgol o'r gymuned wneud i'r Gymraeg gael ei gweld fel cyfrwng addysgol yn unig, yn hytrach na iaith gymunedol fyw.<br><br>Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y byddai cau'r ysgol yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg gan mai'r ysgol yw'r unig adnodd cymunedol yn y pentref. Nodwyd, yn ogystal â bod addysg yn cael ei darparu drwy'r Gymraeg, ei bod yr un mor bwysig bod disgyblion yn datblygu'r Gymraeg fel iaith y maent yn ei defnyddio o ddydd i ddydd yn eu cymuned. Dadleuwyd y byddai tynnu'r ysgol o'r gymuned yn peri risg i'r Gymraeg gael ei gweld fel cyfrwng addysgol yn unig. | asesiad diwygiedig. Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol, adolygwyd yr asesiad unwaith eto a’i ddiweddaru lle bo angen yng ngoleuni’r gwrthwynebiadau a’r sylwadau a dderbyniwyd. Mae’r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar ddefnydd o’r iaith Gymraeg o fewn y gymuned.<br><br>Daw’r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i’r casgliad, pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, y rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio’r Gymraeg yn anffurfiol gyda’u cyfoedion tu mewn a thu allan i’r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a’r defnydd anffurfiol o’r iaith yn gryfach.<br><br>Ar yr un pryd, mae’r Cyngor yn cydnabod y gallai’r cynnig i gau Ysgol Nebo arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i’r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd. |

**4.2 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar y Gymraeg fel iaith fyw yn y gymuned**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bolisïau ac ymrwymiadau Plaid Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg, gan nodi bod y blaid yn datgan y bydd, "ochr yn ochr â datblygu'r Gymraeg drwy ein system addysg, byddwn yn ei hamddiffyn a'i hyrwyddo fel iaith fyw bob dydd, gan gryfhau ei sylfeini mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru".<br><br>Dadleuwyd, er mwyn i'r Gymraeg ffynnu, fod angen ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd, gan gynnwys yn y cartref ac yn y gymuned yn ogystal ag yn yr ysgol. Mynegwyd pryder y byddai cau Ysgol Nebo yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg a'r gymuned leol, gan fod yr ysgol yn cael ei disgrifio fel yr unig adnodd cymunedol yn y pentref ac, i rai trigolion, yr unig gyfle i glywed a chymdeithasu yn Gymraeg.<br><br>Disgrifiwyd Ysgol Nebo fel sylfaen i'r gymuned wledig, yn fwy na chanolfan addysg, ac fel canolbwynt bywyd cymunedol a chymdeithasol sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gynnal y Gymraeg fel iaith fyw bob dydd.<br><br>Cyfeiriwyd at y ffaith mai'r ysgol neu'r ystafell gymunedol yw un o'r ychydig gyfleoedd, neu'r unig gyfle i rai trigolion, glywed a chymdeithasu yn Gymraeg. Nodwyd enghreifftiau megis dosbarthiadau Cymraeg yn yr ystafell gymunedol, a gweithgareddau cymunedol lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o blant o gartrefi di-Gymraeg a oedd wedi datblygu eu Cymraeg drwy addysg yn Ysgol Nebo. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Fel rhan o'r broses ymgynghori statudol, cynhaliwyd Asesiad Effaith ar yr iaith Gymraeg, a chyhoeddwyd yr asesiad gwreiddiol fel rhan o ddogfennaeth yr ymgynghoriad. Yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, adolygwyd ac fe ddiweddarwyd yr Asesiad Effaith Ieithyddol, gyda'r materion a godwyd gan ymgynghorai yn cael eu hystyried wrth lunio'r asesiad diwygiedig. Yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol, adolygwyd yr asesiad unwaith eto a'i ddiweddaru lle bo angen yng ngoleuni'r gwrthwynebiadau a'r sylwadau a dderbyniwyd. Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan ymatebwyr ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Nebo ar ddefnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y gymuned.<br><br>Daw'r Asesiad Effaith Ieithyddol diwygiedig i'r casgliad, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.<br><br>Ar yr un pryd, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r cynnig i gau Ysgol Nebo arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd. |

**4.3 Pryderon bod y cynnig yn groes i amcanion Cymraeg 2050 ac ymrwymiadau'r Cyngor i ddiogelu'r Gymraeg**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyfeiriodd rhai at Cymraeg 2050 ac at amcanion o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol iddi ffynnu. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod cau ysgol Gymraeg mewn cymuned wledig yn groes i'r egwyddorion hyn ac i nodau o ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg.<br><br>Dadleuwyd hefyd fod cau Ysgol Nebo yn mynd yn groes i bob un o brif egwyddorion Cymraeg 2050, sef cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, cynyddu defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol i'r Gymraeg ffynnu.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at ymrwymiad corfforaethol Cyngor Gwynedd i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg, a galwyd am ailystyried y cynnig er mwyn diogelu dyfodol Ysgol Nebo a'r gymuned leol. | Fel uchod (Gweler ymateb 4.2).<br><br>Yn ychwanegol, mae'r asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg yn nodi'r canlynol:<br><br>Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryder y gallai cau ysgol wledig Gymraeg ei chyfrwng weithio'n groes i amcanion Cymraeg 2050, yn enwedig o safbwynt cynyddu defnydd cymunedol a naturiol o'r Gymraeg. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei chlywed, ei defnyddio a'i throsglwyddo'n anffurfiol o ddydd i ddydd, nid yn unig ei haddysgu o fewn y dosbarth. Mynegwyd y farn bod ysgolion bach yn chwarae rôl allweddol wrth greu siaradwyr newydd mewn cymunedau gwledig.<br><br>Nodir fod unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag adrefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r Cyngor yn cydnabod, pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio.<br><br>Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ysgol Llanllyfni ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. O ran y ddarpariaeth addysgol, nodir bod Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, Categori 3. O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Nebo a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Llanllyfni, byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3. Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, yn bennaf gan: |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | • fod ystadegau CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 56% o ddysgwr Ysgol Nebo yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 68% o ddysgwr Ysgol Llanllyfni<br>• y byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Llanllyfni) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Nebo yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, categori 3.<br>• y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig yn cryfhau'r cyfleodd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.<br>Ar sail yr uchod, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Nebo ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.<br><br>Mae'r asesiadau effaith llawn ar gael ar wefan y Cyngor: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg |

**4.4 Effaith bosibl cau'r ysgol ar deuluoedd ifanc a'r Gymraeg**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nododd rhai y byddai colli'r ysgol yn lleihau'r cymhelliant i deuluoedd â phlant oed ysgol symud i'r ardal, ac y gallai hyn arwain dros amser at lai o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. | Fel uchod (Gweler ymateb 4.2 uchod).<br><br>Yn ogystal, mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned yn nodi nad oes tystiolaeth i awgrymu y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol ar gynaliadwyedd y gymuned na phatrymau poblogaeth y dalgylch. Mae cyfran uchel o blant dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (78%), gyda 44% o blant oedran cynradd o ddalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu Ysgol Llanllyfni. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | gymuned pe bai’r ysgol yn cau. Yn ogystal, o ystyried bod yr ysgol amgen wedi ei lleoli 1.6 milltir o Ysgol Nebo, nid yw’r Cyngor yn rhagweld y byddai’r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu y byddai teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i’r gymuned.<br><br>Fodd bynnag, dengys yr asesiad y rhagwelir y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nebo fel canolbwynt cymunedol.<br><br>Pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Nebo, byddai’r Cyngor yn ceisio lliniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a’r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny’n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau’r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad i gau’r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny’n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |

## Thema 5: Effaith y Cynnig ar y Gymuned Leol

### 5.1 Pryderon ynghylch colli Ysgol Nebo fel calon y gymuned ac effaith gymdeithasol, ddiwylliannol ac ieithyddol ei chau

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Derbyniwyd nifer o wrthwynebiadau parthed effaith y cynnig ar y gymuned. Disgrifiwyd Ysgol Nebo fel 'calon' neu 'angor' y gymuned, fel un o'r sefydliadau pwysicaf yn y pentref, ac mewn rhai ymatebion fel yr unig adnodd cymunedol, neu un o'r ychydig adnoddau cymunedol sydd ar ôl.<br><br>Nododd rhai ymatebwyr fod yr ysgol yn rhan o hunaniaeth y gymuned, yn cysylltu cenedlaethau ac yn meithrin ymdeimlad o falchder a pherthyn. Mynegwyd y farn y byddai ei chau yn golled gymdeithasol a diwylliannol enfawr na fyddai'n hawdd ei disodli.<br><br>Roedd rhai ymatebwyr yn dweud bod cau'r ysgol yn gallu cael effaith niweidiol a dinistriol ar y gymuned leol.<br><br>Nododd rhai ymatebwyr fod Ysgol Nebo wedi bod yn ganolog i'r gymuned ers dros ganrif a hanner, gan ddarparu addysg o ansawdd uchel ac amgylchedd diogel a chefnogol i blant yr ardal. Disgrifiwyd yr ysgol hefyd fel sylfaen i'r gymuned wledig, yn bwysig i fywyd cymdeithasol y pentref ac i gynnal yr iaith Gymraeg. Mynegwyd y farn mai'r ysgol yw calon cymuned fywiog ac y byddai ei chau yn gamgymeriad enfawr.<br><br>Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y ffaith mai'r ysgol yw'r unig adnodd cymunedol yn y pentref, gan fynegi pryder y byddai ei chau yn cael effaith negyddol ar y gymuned leol. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Nebo ar y gymuned leol. Mae’r asesiad hwn wedi’i adolygu a’i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried yn llawn y sylwadau a’r materion a godwyd gan ymgynghorai. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiad ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a’r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o’r broses.<br><br>Dengys yr asesiad y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nebo fel canolbwynt cymunedol. Nodir y pryderon a godwyd ynghylch y posibilrwydd y gallai rhai gweithgareddau cymunedol a gynhelir ar hyn o bryd yn yr ysgol neu'r ystafell gymunedol gael eu heffeithio o ganlyniad i'r cynnig. Yn ogystal, cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a’r cyfnod gwrthwynebu ynghylch rôl Ysgol Nebo fel canolbwynt cymunedol ac ynghylch goblygiadau colli’r ysgol ar fywiogrwydd, hunaniaeth a chydlyniant y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni eisoes yn bodoli.<br><br>Pe byddai’r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Nebo, byddai’r Cyngor yn ceisio lliniaru’r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cyfleoedd ar gyfer cynnal a datblygu cysylltiadau cymunedol, a hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny’n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau’r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad i gau’r ysgol yn cael ei wneud, y byddai |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny’n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |

**5.2 Pryderon ynghylch colli’r ysgol fel gofod ar gyfer gweithgareddau, gwirfoddoli a gwasanaethau cymunedol**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nodwyd bod y gymuned eisoes wedi colli adnoddau a gwasanaethau pwysig eraill dros y blynyddoedd, ac mai'r ysgol yw un o'r ychydig asedau cymunedol sydd ar ôl yn yr ardal.<br><br>Rhoddwyd enghreifftiau penodol iawn o weithgareddau a gynhelir yn yr ysgol a'r ystafell gymunedol, gan gynnwys clwb gwau, nosweithiau cymdeithasol, clwb garddio, gofalu am blanwyr a pherllan, cyfarfodydd cymdeithasol dros baned, dosbarthiadau Cymraeg i 11 o drigolion, gorsaf bleidleisio, cyfarfodydd misol y Pwyllgor Ardal, a ras flynyddol Eryri Harriers sy'n codi arian i'r ysgol.<br><br>Nodwyd hefyd fod gwirfoddolwyr lleol yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau er budd y gymuned, gan gynnwys gwaith amgylcheddol a chynnal asedau cymunedol, a dadleuwyd bod rhai o'r gweithgareddau hyn yn cyfrannu at leihau'r baich ar wasanaethau cyhoeddus.<br><br>Dadleuwyd y byddai'r gweithgareddau hyn yn diflannu heb ofod cymunedol lleol. | Fel uchod (Gweler ymateb 5.1 uchod). |

**5.3 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar hyfywedd hirdymor y pentref a dyfodol y gymuned wledig**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Dadleuwyd gan rai ymatebwyr fod dyfodol y pentref yn y fantol, a bod yr ysgol yn un o'r sefydliadau pwysicaf yn y gymuned.<br><br>Nodwyd ei bod yn denu teuluoedd ifanc i fyw yn yr ardal ac yn cyfrannu at gynnal bywyd cymdeithasol a chymunedol lleol.<br><br>Mynegwyd y farn y gall cau ysgol bentref anfon neges nad oes dyfodol i deuluoedd ifanc yn y gymuned, gan arwain at ostyngiad pellach yn y boblogaeth a dirywiad graddol yn hyfywedd y pentref.<br><br>Dadleuwyd y gallai hyn arwain at gymuned gyda phoblogaeth hŷn fwyfwy ynysig, llai o deuluoedd lleol, a chynnydd yng nghyfran eiddo gwyliau a llety tymhorol.<br><br>Cyfeiriwyd at y ffaith bod cymunedau gwledig Cymru a'r Gymraeg o fewn y cymunedau hynny eisoes yn 'gwegian', a bod cau ysgol fach wledig yn cael ei weld fel cam pellach yn y dirywiad hwnnw.<br><br>Dadleuwyd gan rai ymatebwyr fod penderfyniadau am ysgolion gwledig yn benderfyniadau am ddyfodol cymunedau gwledig.<br><br>Mynegwyd y farn y byddai cau'r ysgol yn golygu colli rhan bwysig o galon y pentref am byth. | Fel uchod (Gweler ymateb 5.1).<br><br>Yn ogystal, nodir yn yr Asesiad Effaith ar y Gymuned fod rhai ymatebwyr, yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi mynegi pryder y gallai cau'r ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, ddylanwadu ar benderfyniadau teuluoedd ifanc ynghylch aros yn y gymuned neu symud i mewn iddi, o ystyried pwysigrwydd yr ysgol fel ased lleol.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi'r pryder hwn. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth glir i awgrymu y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain yn uniongyrchol at ostyngiad sylweddol ym mhoblogaeth y gymuned nac at leihad sylweddol yn nifer y teuluoedd ifanc sy'n dewis byw yn yr ardal.<br><br>Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, nodir bod cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (78%), gyda 44% o blant oedran cynradd o ddalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu Ysgol Llanllyfni.<br><br>O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe bai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, o ystyried bod yr ysgol amgen wedi ei lleoli 1.6 milltir o Ysgol Nebo, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu y byddai teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned. |

**5.4 Pryderon ynghylch effaith cau'r ysgol ar les, cynhwysiant cymdeithasol a chynaliadwyedd y gymuned**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Derbyniwyd rhai sylwadau yn rhybuddio am ganlyniadau ehangach: cynyddu unigedd cymdeithasol, lleihau gweithgareddau gwirfoddol, colli lle i deuluoedd ifanc, dirywiad yn hyfywedd y pentref, a cholli rhan o galon y gymuned am byth.<br><br>Dadleuwyd hefyd y gallai cynnydd mewn unigedd cymdeithasol a dirywiad mewn iechyd a lles rhai trigolion arwain at bwysau a chostau ychwanegol i wasanaethau'r Cyngor yn y dyfodol.<br><br>Dywedodd rhai ymatebwyr fod yr ysgol yn darparu sefydlogrwydd ac adnoddau hanfodol i deuluoedd lleol, a chodwyd pryder ynghylch colli'r gefnogaeth hon mewn ardal lle mae gwasanaethau cyhoeddus eisoes o dan bwysau.<br><br>Roedd rhai ymatebwyr o'r farn fod y Cyngor yn rhoi mwy o bwyslais ar arbedion yn y gyllideb addysg nag ar ganlyniadau ehangach y cynnig. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Noder bod y materion hyn wedi cael eu hystyried drwy'r Asesiad Effaith ar y Gymuned a'r Asesiad Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br><br>Cydnabyddir y byddai gweithredu'r cynnig yn arwain at golli ysgol yn y gymuned ac y gallai hynny gael effaith ar rai agweddau o fywyd cymunedol lleol. Fodd bynnag, wrth asesu'r effeithiau hynny, nodwyd bod 78% o blant sy'n byw o fewn dalgylch Ysgol Nebo eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gyda 44% yn mynychu Ysgol Llanllyfni. Mae hyn yn awgrymu bod cysylltiadau â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni, eisoes yn bodoli.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i fesurau lliniaru posibl, gan gynnwys annog cysylltiadau rhwng cymuned Nebo ac Ysgol Llanllyfni, trafod cyfleoedd priodol i gynnwys cymuned Nebo yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol, ac ystyried cyfleoedd ar gyfer defnydd cymunedol o safle'r ysgol yn y dyfodol pe byddai'r ysgol yn cau, yn unol â Pholisi Ôl-ddefnydd Cyngor Gwynedd.<br>Yn ogystal, daeth yr asesiad i'r casgliad bod y cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.<br><br>Yn ogystal, noder nad ystyriaethau ariannol yn unig a arweiniodd at yr adolygiad o Ysgol Nebo. Cynhaliwyd yr adolygiad oherwydd y nifer o heriau sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel, lefel uchel o lefydd gweigion a heriau o ran cynaliadwyedd hirdymor. Wrth ddatblygu'r cynnig, rhoddwyd ystyriaeth i ystod eang o ffactorau, gan gynnwys yr effeithiau posibl ar y gymuned, y Gymraeg a llesiant, yn ogystal â'r goblygiadau ariannol. |

**5.5 Pryderon ynghylch dibynnu ar gyfleusterau yn Llanllyfni fel mesur lliniaru ac effaith hynny ar drigolion lleol**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at ymateb yn yr Adroddiad Ymgynghori a oedd yn awgrymu y gallai trigolion ddefnyddio cyfleusterau yn Llanllyfni oherwydd cysylltiadau presennol â'r gymuned honno.<br><br>Heriwyd hyn gan rai ymatebwyr, a nodwyd nad yw hynny'n adlewyrchu realiti'r rhan fwyaf, bod y cymunedau'n wahanol, ac nad yw teithio'n hawdd i rai trigolion, yn enwedig pobl hŷn neu bobl heb gar. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r asesiad effaith ar y gymuned yn nodi, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Nebo, byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y sylwadau a dderbyniwyd ynghylch y gwahaniaethau rhwng cymunedau Nebo a Llanllyfni, a'r ffaith na fydd pob trigolyn mewn sefyllfa i fanteisio ar weithgareddau neu gyfleusterau y tu allan i'r gymuned leol.<br><br>Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |

**5.6 Pryderon ynghylch effaith cau Ysgol Nebo ar y Gymraeg a chynaliadwyedd y gymuned wledig**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Disgrifiwyd ysgol fach wledig gan rai ymatebwyr fel angor i'w chymuned o safbwynt iaith a chymdeithas.<br><br>Dadleuwyd mai ysgolion yw sail llawer o gymunedau gwledig, ac os yw Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adeiladu cymunedau cryf a gwydn, ni ddylid cau ysgolion sy'n ffurfio rhan sylfaenol o'r cymunedau hynny.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at ymrwymiad corfforaethol Cyngor Gwynedd i ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg a chymunedau Cymraeg, a dadleuwyd y dylid ailystyried y cynnig ymhellach er mwyn diogelu dyfodol Ysgol Nebo a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Nebo ar y gymuned leol. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried y sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiad ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o'r broses.<br><br>Dengys yr asesiad y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol fel canolbwynt cymunedol o fewn cymuned Nebo. Cydnabyddir y sylwadau a dderbyniwyd ynghylch rôl Ysgol Nebo fel angor i'r gymuned ac fel sefydliad sy'n cyfrannu at fywyd cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol yr ardal. Cydnabyddir hefyd y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a'r cyfnod gwrthwynebu ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni eisoes yn bodoli.<br><br>Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen â'r cynnig i gau Ysgol Nebo, byddai'r Cyngor yn ceisio lliniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny’n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |

**Thema 6: Heriau i'r Broses Statudol a'r Broses Benderfynu**

**6.1 Pryderon ynghylch diduedddrwydd y broses, ystyriaeth o sylwadau’r gymuned ac ansawdd yr Adroddiad Ymgynghori**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nododd rhai fod barn a sylwadau'r gymuned wedi'u hanwybyddu drwy gydol y broses benderfynu, a bod hyn yn dangos diffyg diduedddrwydd.<br><br>Codwyd pryderon nad oedd yr ymgynghoriad, yr adroddiad ymgynghori na'r broses benderfynu wedi rhoi sylw digonol i'r pwyntiau a godwyd gan rieni, | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r Cyngor yn fodlon fod y broses statudol a’r holl ddogfennaeth a luniwyd fel rhan o’r broses wedi cydymffurfio â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae’r Cyngor yn fodlon bod yr ymatebion a’r safbwyntiau a |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| athrawon, llywodraethwyr, disgyblion a thrigolion. Dadleuwyd nad oedd yr ymgynghoriad statudol wedi bod yn foddhaol ac nad oedd y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Cabinet cyn y penderfyniad wedi bod yn ddigonol nac yn ddiduedd.<br><br>Cyfeiriwyd yn benodol at yr adroddiad ymgynghori 145 tudalen. Roedd rhai ymatebwyr yn feirniadol iawn ohono, gan ddweud ei fod yn ailadrodd cynnwys y ddogfen ymgynghori, yn ymddangos fel gwaith *'cut and paste'*, yn anodd ei ddilyn, ac nad oedd yn mynd i'r afael yn briodol â'r rhan fwyaf o'r pryderon, heriau ac awgrymiadau a gyflwynwyd. Mynegwyd y farn y dylai'r adroddiad fod wedi rhestru'r pryderon a'r awgrymiadau a gyflwynwyd gan ymatebwyr a darparu ymateb clir i bob un ohonynt fesul pwynt.<br><br>Roedd rhai ymatebwyr yn dweud bod barn a sylwadau'r gymuned wedi'u hanwybyddu neu heb gael eu hadlewyrchu'n ddigonol.<br><br>Mynegwyd yn gyffredinol hefyd y farn nad yw'r Cyngor wedi gweithredu i'r safon ddisgwyliedig yn ystod y broses, ac fod y penderfyniad i gau Ysgol Nebo yn adlewyrchu hynny. | gyflwynwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu wedi cael eu crynhoi a'u hystyried yn unol â'r trefniadau a'r gofynion statudol perthnasol.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), lluniwyd Adroddiad Ymgynghori yn dilyn y cyfnod ymgynghori statudol. Roedd yr adroddiad hwnnw yn crynhoi'r ymatebion a'r materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ac yn cynnwys ymateb y Cyngor i'r materion hynny, yn unol â'r gofynion statudol perthnasol. Cyflwynwyd yr Adroddiad Ymgynghori i Gabinet Cyngor Gwynedd i'w ystyried, ac ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad hwnnw a'r holl wybodaeth berthnasol arall, penderfynodd y Cabinet gyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig a chynnal cyfnod gwrthwynebu statudol.<br><br>Mae'r Adroddiad Gwrthwynebu presennol wedi'i lunio yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion ac mae'n cynnwys crynodeb o'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol, ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r materion a godwyd. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ystyried gan Gabinet Cyngor Gwynedd ochr yn ochr â'r holl wybodaeth berthnasol arall cyn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch y cynnig. |

**6.2 Pryderon nad oedd lleisiau'r plant wedi cael digon o sylw yn y broses**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Mynegodd rhai ymatebwyr bryder nad oedd sylwadau'r plant eu hunain wedi cael digon o sylw yn y broses, er gwaethaf galwadau penodol i wrando ar eu lleisiau wrth ystyried dyfodol yr ysgol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r broses statudol mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Nebo wedi'i gynnal yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br><br>Yn unol â gofynion y Cod, cynhaliwyd trefniadau penodol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc fel rhan o'r broses statudol, gan gynnwys sesiynau dynodedig gyda |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | dysgwyr o Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, yn ogystal â darparu dogfennau a holiaduron pwrpasol.<br><br>Mae crynodeb o’r safbwyntiau a fynegwyd gan y dysgwyr wedi’i gynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori. Cyflwynwyd safbwyntiau’r dysgwyr, ochr yn ochr â chrynodeb o’r ymatebion eraill a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol i Gabinet y Cyngor fel rhan o’r Adroddiad Ymgynghori.<br><br>Ar ôl ystyried cynnwys yr adroddiad hwnnw a’r holl wybodaeth berthnasol arall, penderfynodd y Cabinet gyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig a chynnal cyfnod gwrthwynebu statudol. Felly, rhoddwyd cyfle penodol i’r dysgwyr fynegi eu barn, a chafodd eu safbwyntiau eu cofnodi a’u cyflwyno i’r Cabinet fel rhan o’r broses benderfynu statudol. |

**6.3 Diffyg ystyriaeth ddigonol o gynnig amgen y Corff Llywodraethol a’r darpariaeth ADY**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai gwrthwynebwyr yn mynegi pryder penodol nad oedd cynnig y Llywodraethwyr i gadw'r ysgol ar agor a datblygu darpariaeth feithringar neu arbenigol wedi cael ei ystyried yn briodol.<br><br>Mynegodd rhai ymatebwyr bryder y gallai’r Cabinet wneud penderfyniad heb ddeall yn llawn sefyllfa bresennol plant sy’n cael trafferth mewn ysgolion prif ffrwd, na’r penderfyniadau sydd i’w gwneud ym Medi 2026 ynghylch cefnogaeth ADY.<br><br>Dadleuwyd nad oedd y cynnig i barhau i ddarparu cefnogaeth o safon uchel i’r disgyblion hyn yn Ysgol Nebo wedi cael ei ystyried yn briodol yn yr Adroddiad Ymgynghori, a mynegwyd y farn fod hyn yn awgrymu diffyg meddwl strategol yn yr Adran Addysg. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Cyflwynwyd opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Yn dilyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhoddwyd ystyriaeth lawn i’r opsiwn, ochr yn ochr â’r sylwadau, y dystiolaeth ychwanegol a’r opsiynau amgen rhesymol eraill a gyflwynwyd drwy’r broses.<br><br>Mae manylion yr opsiwn amgen, ynghyd â'r gwerthusiad o’r opsiynau amgen a ystyriwyd, wedi'u cofnodi yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r dogfennau ategol cysylltiedig. Mae'r dogfennau hyn ar gael i'w gweld ar wefan Cyngor Gwynedd yn www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg . |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Mynegodd rhai ymatebwyr bryder fod penderfyniad y Cabinet i gyhoeddi'r Hysbysiad Statudol wedi'i wneud ar sail ffeithiau annigonol a gwybodaeth anghyflawn. Dadleuwyd bod tystiolaeth o ddiffyg lleoedd ADY a chynnydd yn y galw amdanynt, ond nad oedd y wybodaeth hon wedi cael ystyriaeth briodol wrth wneud penderfyniadau.<br><br>Mynegwyd hefyd y farn fod Cyngor Gwynedd yn fyr ei olwg o ran polisi ADY a strategaeth y dyfodol ar gyfer ysgolion, plant a rhieni Gwynedd, ac nad oedd aelodau etholedig nac uwch swyddogion addysg wedi gwneud penderfyniadau ar sail yr holl wybodaeth berthnasol.<br><br>Dadleuwyd y dylai'r materion hyn fod wedi ffurfio rhan sylfaenol o broses benderfynu'r Cabinet. | Yn dilyn gwerthuso'r opsiwn, daeth y Cyngor i'r casgliad nad oedd yr opsiwn yn darparu ymateb digonol na chynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo.<br><br>O dan yr opsiwn hwn, rhagwelir y byddai’r drefn a’r meini prawf mynediad yn parhau’n unol â’r trefniadau presennol, heb unrhyw newid i’r drefn mynediad, na statws yr ysgol. O ystyried y byddai’r trefniadau mynediad presennol yn parhau heb eu newid, ni ragwelir y byddai’r opsiwn hwn yn arwain at gynnydd ystyrlon yn nifer y dysgwyr nac at leihad sylweddol yn y lefel uchel o lefydd gweigion. Yn sgil hynny, rhagwelwyd y byddai’r heriau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, a’r heriau ariannol cysylltiedig, gan gynnwys y gost uchel fesul dysgwr, yn parhau heb eu datrys.<br><br>Dilynwyd y broses statudol yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru.<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth a'r dystiolaeth berthnasol, yr asesiadau effaith, yr opsiynau amgen a gyflwynwyd, gan gynnwys opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo, ynghyd â'r sylwadau a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Yn dilyn y broses hon, daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo oedd yr opsiwn a fyddai’n darparu yr ymateb mwyaf priodol i'r heriau sy’n wynebu’r ysgol.<br><br>Mae'r Cyngor felly yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r cynnig mwyaf addas i fynd i'r afael â'r heriau sy’n wynebu’r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae’r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis mynychu ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sy’n sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae’r cynnig yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag; |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | • Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran;<br>• Lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir.<br><br>Mewn ymateb i'r sylwadau sy'n ymwneud â'r adroddiad arfaethedig ar ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), nodir bod ystyriaeth ehangach o ddarpariaeth ADY yn fater parhaus i'r Awdurdod Lleol, a bod anghenion dysgwyr unigol yn cael eu hystyried yn barhaus drwy'r trefniadau statudol presennol. Mae'r broses statudol ar ddyfodol Ysgol Nebo wedi'i chynnal ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael ar y pryd. Pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i weithredu'r cynnig, byddai trefniadau pontio priodol a chefnogaeth addas ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn cael eu cynllunio a'u hystyried yn unol ag anghenion unigol y dysgwyr. |

**6.4 Pryderon ynghylch cydymffurfiaeth â'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig ac ystyriaeth o opsiynau amgen**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyfeiriwyd at y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion, a mynegwyd y farn nad oedd y Cyngor wedi dangos ei fod wedi ystyried yn gydwybodol gynnig y Corff Llywodraethol na'r opsiynau amgen eraill cyn symud ymlaen â'r cynnig i gau'r ysgol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn cyflwyno trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig drwy sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau, ond yn hytrach fod rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'i ystyried yn gydwybodol. Mae Ysgol Nebo wedi'i dynodi'n ysgol wledig at ddibenion y Cod, ac o ganlyniad mae'n ofynnol dilyn cyfres ychwanegol o weithdrefnau a meini prawf wrth ystyried unrhyw gynnig i'w chau. |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y cynnig wedi'i asesu'n benodol yn erbyn y ffactorau statudol sy'n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae'r Cyngor yn hyderus bod yr holl brosesau, asesiadau a gofynion ychwanegol a bennir yn y Cod ar gyfer ysgolion gwledig wedi'u dilyn yn llawn.<br><br>Cyn cyflwyno'r cynnig ar gyfer ymgynghoriad statudol, cynhaliwyd yr asesiadau effaith perthnasol a rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i'r opsiynau amgen rhesymol a oedd wedi'u nodi bryd hynny. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, rhoddwyd ystyriaeth lawn hefyd i'r opsiynau amgen ychwanegol, gan gynnwys yr opsiwn amgen a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nebo ac i'r wybodaeth a'r dystiolaeth ychwanegol a ddaeth i law.<br><br>Cyflwynwyd opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Yn dilyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r opsiwn, ochr yn ochr â'r sylwadau a'r dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd drwy'r broses. Mae manylion yr opsiwn amgen, ynghyd â'r gwerthusiad o'r opsiynau eraill a ystyriwyd, wedi'u cofnodi yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r dogfennau ategol cysylltiedig, sydd ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg<br><br>Yn dilyn gwerthuso opsiwn amgen  y Corff Llywodraethol, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. O dan yr opsiwn hwn, byddai Ysgol Nebo yn parhau i weithredu fel ysgol gynradd brif ffrwd gyda'r un trefniadau a meini prawf mynediad. O ganlyniad, ni ragwelwyd y byddai'r opsiwn yn arwain at gynnydd ystyrlon yn nifer y dysgwyr nac yn lleihau'r nifer uchel o lefydd gwag. Byddai'r heriau presennol sy'n ymwneud â niferoedd isel iawn o ddysgwyr, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel yn y dyfodol, patrwm sefydledig o ddewis rhieni a chost fesul dysgwr sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol yn debygol o barhau. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Yn dilyn ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol, daeth y Cyngor i'r casgliad nad oedd yr un o’r opsiynau amgen yn darparu ymateb addas na chynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol.<br><br>Mae'r Cyngor felly yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r cynnig fwyaf addas o fynd i'r afael â'r heriau sy’n wynebu’r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae’r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae’r cynnig yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**6.5 Pryderon ynghylch didueddrwydd y broses a’r honiad bod penderfyniad i gau’r ysgol wedi’i wneud ymlaen llaw**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyflwynwyd hefyd honiadau ynghylch tuedd, diffyg didueddrwydd a phenderfyniad ymlaen llaw.<br><br>Cyfeiriwyd at gostau, niferoedd disgyblion, amcangyfrifon cynnal a chadw, gwybodaeth anghyflawn am ADY, ac awgrymiadau bod y penderfyniad wedi'i lunio neu ei gyfiawnhau cyn cwblhau'r broses. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Nodir bod y Cyngor wedi dilyn y broses statudol a bennir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo ar 31 Rhagfyr 2026 a darparu lle i'r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni o 1 Ionawr 2027 ymlaen rhwng 5 Rhagfyr 2025 a 23 Ionawr 2026. Yn dilyn yr ymgynghoriad, ystyriwyd yr ymatebion |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Dadleuwyd gan rai ymatebwyr fod penderfyniad i gau'r ysgol wedi'i wneud cyn cynnal yr ymgynghoriad a cyn i'r Cabinet ystyried y mater yn ffurfiol.<br><br>Mynegwyd hefyd y farn nad oedd yr Adran Addysg wedi gweithredu'n ddiduedd yn ystod y broses ac fod penderfyniad i gau'r ysgol eisoes wedi'i wneud cyn i'r dystiolaeth berthnasol gael ei hystyried. | a’r wybodaeth ychwanegol a gyflwynwyd, a lluniwyd Adroddiad Ymgynghori yn unol â gofynion y Cod. Roedd yr adroddiad yn crynhoi’r sylwadau a dderbyniwyd, yn nodi ymateb y Cyngor iddynt ac yn cofnodi’r ystyriaeth bellach a roddwyd i’r cynnig a’r opsiynau amgen. Cyflwynwyd yr adroddiad hwnnw i'r Cabinet, a phenderfynodd y Cabinet ganiatáu cyhoeddi hysbysiad statudol ar y cynnig.<br><br>Yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, cynhaliwyd cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn rhoi cyfle i unrhyw un gyflwyno gwrthwynebiad i'r cynnig. Mae'r adroddiad gwrthwynebu hwn yn crynhoi'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod hwnnw ac yn nodi ymateb y Cyngor iddynt er mwyn cynorthwyo'r Cabinet wrth ystyried y mater.<br><br>Nid oedd y penderfyniad i gynnal ymgynghoriad statudol, na’r penderfyniad dilynol i gyhoeddi hysbysiad statudol, yn benderfyniad terfynol i weithredu’r cynnig. Camau o fewn y broses statudol oedd y rhain, ac roeddent yn galluogi’r Cyngor i gasglu ac ystyried sylwadau, tystiolaeth, opsiynau amgen a gwrthwynebiadau cyn i’r Cabinet wneud penderfyniad terfynol.<br><br>Mae’r Cyngor yn hyderus bod y broses wedi’i chynnal yn ddiduedd ac nad oes penderfyniad terfynol wedi’i wneud ymlaen llaw. Rhoddwyd ystyriaeth i’r wybodaeth, y dystiolaeth a’r sylwadau perthnasol ar bob cam o’r broses.<br><br>Bydd y Cabinet yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid gweithredu’r cynnig ai peidio ar ôl ystyried yr Adroddiad Gwrthwynebu a’r holl wybodaeth berthnasol fydd gerbron. |

**6.6 Pryderon ynghylch effaith yr amserlen a’r trafodaethau am gau ar niferoedd dysgwyr a dewisiadau rhieni**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Mynegwyd hefyd y farn fod yr amserlen arfaethedig ar gyfer cau'r ysgol wedi ei gosod mewn modd a allai gyfrannu at ostyngiad yn nifer y disgyblion, gan gryfhau'r achos dros y cau.<br><br>Mynegwyd y farn fod trafodaethau a bygythiadau ynghylch cau'r ysgol wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer y disgyblion, ac wedi dylanwadu ar benderfyniadau rhai rhieni i ddewis ysgolion eraill. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r Cyngor yn cydnabod bod sefydlogrwydd a sicrwydd yn ffactorau pwysig i rieni wrth wneud penderfyniadau ynghylch addysg eu plant, ac y gall cyfnodau o ansicrwydd greu pryder i deuluoedd. Yn y cyd-destun hwn, nodir bod y Cyngor yn adolygu dyfodol Ysgol Nebo gan fod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, patrymau dalgylch, a rhagamcanion niferoedd yn y tymor canolig a’r tymor hir.<br><br>Cydnabyddir bod nifer o ffactorau ac ystyriaethau amrywiol yn dylanwadu ar ddewisiadau addysgol rhieni. |

**6.7 Pryderon ynghylch effaith cau’r ysgol ar ddysgwyr presennol, rhieni a pharhad mewn addysg ffurfiol**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Dadleuodd rhai nad yw effaith y cynnig ar ddysgwyr presennol a rhieni wedi cael ei hasesu'n ddigonol, ac y gallai rhai dysgwyr adael y system addysg ffurfiol pe byddai’r ysgol yn cau. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Fel rhan o’r broses statudol, cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig i gau Ysgol Nebo yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cyhoeddi dogfen ymgynghori fanwl, pecyn o asesiadau effaith, a darparu cyfnod statudol penodol i randdeiliaid gyflwyno eu barn. Yn unol â gofynion y Cod, gwnaed trefniadau penodol i ymgynghori â phlant a phobl ifanc fel rhan o’r broses statudol, gan gynnwys sesiynau dynodedig gyda dysgwyr yn Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, yn ogystal â darparu dogfennau a holiaduron pwrpasol.<br><br>Cafodd safbwyntiau’r dysgwyr eu hystyried ochr yn ochr â’r holl ymatebion eraill a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, a chawsant eu cyflwyno i’r |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Cabinet fel rhan o’r Adroddiad Ymgynghori cyn iddo benderfynu cyhoeddi’r hysbysiad statudol.<br><br>Mae’r holl ddogfennau statudol yn ymwneud â’r cynnig ar gael i'w gweld ar wefan Cyngor Gwynedd yn www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg . |

## Thema 7: Ystyriaethau Ariannol, Costau a Chyllido Addysg

### 7.1 Pryderon ynghylch y pwyslais ar gost fesul dysgwr wrth asesu gwerth addysgol a chymunedol Ysgol Nebo

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd nifer o sylwadau'n feirniadol o'r pwyslais ar gostau a chost fesul disgybl. Dadleuwyd na ddylai addysg gael ei thrin fel busnes, ac nad yw cymharu cost plentyn mewn ysgol fach â chost plentyn mewn ysgol fwy yn ddigonol i asesu gwerth ysgol leol.<br><br>Cyfeiriwyd at addysg fel hawl plentyn i dderbyn addysg yn ei ysgol gynradd leol gyda chyfoedion lleol.<br><br>Dadleuwyd gan rai ymatebwyr nad oedd cymariaethau cost fesul disgybl rhwng Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni yn cymryd i ystyriaeth fod rhai disgyblion angen lefelau uwch o gefnogaeth, ac y byddai'r costau hynny'n parhau waeth pa ysgol a fynychent. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo wedi’i seilio ar gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang a rhagamcanion sy’n dangos y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau’n isel yn y tymor canolig a’r tymor hir.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo a chynnig lle i’r dysgwyr yn Ysgol Llanllyfni yw'r cynnig fwyaf addas i fynd i'r afael â'r heriau sy’n wynebu’r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae’r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae’r cynnig yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas; |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | • Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**7.2 Galwad i adolygu trefniadau cyllido ysgolion ac ystyried buddion cymunedol hirdymor**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai ymatebwyr yn gosod y mater mewn cyd-destun ehangach o gyllido ysgolion. Galwodd rhai ymatebwyr ar y Llywodraeth bresennol i adolygu'r ffordd y mae ysgolion yn cael eu cyllido.<br><br>Nodwyd nad cyfrifwyr yw penaethiaid ysgolion ond eu bod wedi'u cymhwyso i addysgu, a dadleuwyd y dylid newid y drefn ariannu er mwyn lleihau'r pwysau ar staff ysgolion sydd eisoes yn gwegian.<br><br>Mynegwyd y farn gan rai ymatebwyr y dylid ystyried y budd hirdymor i'r gymuned gyfan wrth wneud penderfyniadau, nid yn unig y costau ariannol uniongyrchol. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo wedi’i seilio ar gyfuniad o ffactorau, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang a rhagamcanion sy’n dangos y bydd niferoedd dysgwyr yn parhau’n isel yn y tymor canolig a’r tymor hir.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r cynnig fwyaf addas i fynd i'r afael â'r heriau sy’n wynebu’r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae’r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis mynychu ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae’r cynnig yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**7.3 Pryderon ynghylch cysondeb penderfyniadau ariannol a'r strategaeth hirdymor ar gyfer darpariaeth addysg**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyfeiriwyd hefyd at gwestiynau am gysondeb gwariant a chynllunio strategol. Nododd rhai ymatebwyr fod cost fesul disgybl yn cael ei chyflwyno fel y prif reswm dros y cynnig i gau'r ysgol, ond bod math tebyg o wariant wedi cael ei ganiatáu mewn mannau eraill.<br><br>Cyfeiriwyd at safle hen Ysgol Felinwnda, sydd wedi'i adnewyddu, a nodwyd mai dim ond 2 ddysgwyr ei fynychu, gan ddadlau bod hyn yn golygu cost i'r pwrs cyhoeddus ac yn codi cwestiynau ynghylch cysondeb y dull gweithredu mewn perthynas â defnydd o adnoddau addysgol a chyllid addysg. Yn y cyd-destun hwn, mynegwyd pryder ynghylch y rhesymeg ariannol dros y cynnig i gau Ysgol Nebo, gan nodi bod gwariant tebyg wedi'i ganiatáu mewn sefyllfaoedd eraill, ac y dylid egluro'n ehangach y cynlluniau a'r strategaethau sydd ar waith ar gyfer darpariaeth addysg hirdymor yng Ngwynedd. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Nodir mai dyfodol Ysgol Nebo yw ffocws y broses statudol hon, a bod y broses wedi ei chynnal yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae'r adolygiad presennol wedi'i seilio ar yr heriau sy'n wynebu'r ysgol honno, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy'n parhau'n isel.<br><br>Mae'r Cyngor yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r cynnig fwyaf addas i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae'r cynnig yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:<br>• Ymateb i'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy'n parhau'n isel, a'r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran;<br>• Lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**7.4 Pryderon ynghylch diffyg dadansoddiad manwl ac arolwg proffesiynol i gefnogi costau cynnal a chadw'r ysgol**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Heriodd rhai ymatebwyr ffigurau cynnal a chadw a gyhoeddwyd gan y Cyngor, gan nodi nad oedd y costau ar gyfer toeon, toiledau, waliau allanol, ffenestri a drysau wedi'u cefnogi gan ddadansoddiad manwl neu arolwg proffesiynol.<br><br>Dadleuwyd hefyd gan rai ymatebwyr fod costau cynnal a chadw ac atgyweirio'r ysgol wedi'u goramcangyfrif, ac nad oeddent wedi'u cefnogi gan asesiad gan syrfëwr cymwysedig.<br><br>Nododd rhai ymatebwyr eu bod wedi gofyn am ddadansoddiad manwl o'r costau a amcangyfrifwyd ar gyfer atgyweirio'r ysgol, ond nad oedd y ffigurau a gyflwynwyd yn cynnwys manylion yn dangos sut y cyfrifwyd y costau.<br><br>Cyfeiriwyd at amcangyfrifon ar gyfer toeon, toiledau bechgyn a merched, waliau allanol, ffenestri a drysau.<br><br>Dadleuwyd nad oedd y ffigurau hyn yn gyfystyr ag asesiad manwl wedi'i seilio ar arolwg proffesiynol, ac na ddylid eu defnyddio fel rheswm dros gau'r ysgol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Nodir nad yw'r costau cynnal a chadw'r adeilad wedi'u hadnabod fel her allweddol sy'n wynebu'r ysgol nac fel rheswm ynddynt eu hunain dros gyflwyno'r cynnig. Mae'r amcangyfrif o £95,000 wedi'i gynnwys er mwyn darparu gwybodaeth gyd-destunol am gyflwr yr adeilad fel rhan o'r darlun ehangach o'r ddarpariaeth.<br><br>Nodir bod yr amcangyfrif hwn yn seiliedig ar arolwg cyflwr a gynhelir gan y Cyngor, fel rhan o'r arolygon cyflwr rheolaidd a gynhelir ar draws ystâd ysgolion y Sir. Mae'r arolygon hyn yn cyfrannu at Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor ac yn cefnogi blaenoriaethu'r rhaglen waith cynnal a chadw ysgolion.<br><br>Yn achos Ysgol Nebo, mae'r adeilad wedi'i asesu fel categori cyflwr 'B' (boddhaol – mân ddirywiad), gyda mannau o ddirywiad sy'n gofyn am waith cynnal a chadw. Mae'r arolwg cyflwr yn nodi'r angen am y gwaith canlynol:<br><br>• Atgyweirio'r to a'r gwteri – £35,000<br>• Uwchraddio'r toiledau – £25,000<br>• Ail-rendro waliau allanol – £30,000<br>• Amnewid rhai ffenestri – £5,000<br>• Cyfanswm yr amcangyfrif – £95,000<br><br>Mae'r tabl yn y ddogfen ymgynghori yn crynhoi cyflwr yr adeiladau yn Ysgol Nebo ac Ysgol Llanllyfni, ynghyd â'r gwaith cynnal a chadw amcangyfrifedig sydd ei angen. Mae'r gwaith a nodir yn adlewyrchu anghenion cynnal a chadw tebygol dros gyfnod, ac nid yw pob elfen yn fater brys nac o reidrwydd yn waith a fyddai angen ei gyflawni ar unwaith.<br><br>Nid yw'r cynnig wedi'i seilio ar y costau cynnal a chadw hyn. Cynhaliwyd yr adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo mewn ymateb i'r heriau ehangach sy'n wynebu'r ysgol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel iawn o lefydd |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | gweigion, dosbarthiadau bychain gydag amrediad oedran eang, a rhagamcanion niferoedd sy’n parhau’n isel yn y tymor canolig a’r tymor hir. |

**7.5 Pryderon ynghylch diffyg ystyriaeth i fanteision ariannol hirdymor cynllun peilot ADY yn Ysgol Nebo**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Nododd rhai ymatebwyr mai prin oedd y sylw a roddwyd i'r manteision ariannol posibl o ddatblygu Ysgol Nebo fel cynllun peilot ar gyfer anghenion plant ysgol gynradd Gwynedd yn y dyfodol.<br><br>Dadleuwyd gan rai ymatebwyr nad oedd y Cyngor wedi ystyried yr arbedion posibl yn y tymor hwy a allai ddeillio o ddarparu cefnogaeth ADY briodol yn ystod y cyfnod cynradd. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Cyflwynwyd opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Yn dilyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhoddwyd ystyriaeth lawn i’r opsiwn, ochr yn ochr â’r sylwadau, y dystiolaeth ychwanegol a’r opsiynau amgen rhesymol eraill a gyflwynwyd drwy’r broses.<br><br>Mae manylion yr opsiwn amgen, ynghyd â'r gwerthusiad o’r opsiynau amgen a ystyriwyd, wedi'u cofnodi yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r dogfennau ategol cysylltiedig. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd yn www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg .<br><br>Yn dilyn gwerthuso’r opsiwn, daeth y Cyngor i'r casgliad na fyddai’r opsiwn amgen yn ymateb i'r heriau sy’n wynebu Ysgol Nebo.<br><br>O dan yr opsiwn yma, rhagwelir y byddai’r drefn a’r meini prawf mynediad yn parhau’n unol â’r trefniadau presennol, heb unrhyw newid i’r drefn mynediad, na statws yr ysgol. O ystyried y byddai’r trefniadau mynediad presennol yn parhau heb eu newid, ni ragwelir y byddai’r opsiwn yma’n arwain at gynnydd ystyrlon mewn niferoedd dysgwyr nac at leihad sylweddol yn y lefel uchel o lefydd gweigion. Yn sgil hynny, rhagwelwyd y byddai’r heriau presennol o ran dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, y rhagamcanion niferoedd isel |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | yn y dyfodol, a’r heriau ariannol cysylltiedig, gan gynnwys costau uchel fesul dysgwr, yn parhau heb eu datrys.<br><br>Mae'r Cyngor felly yn parhau o'r farn mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r cynnig fwyaf addas i fynd i'r afael â'r heriau sy’n wynebu’r ysgol sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o lefydd gweigion, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae’r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sylweddol uwch na’r cyfartaledd sirol.<br><br>Mae’r cynnig yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

## Thema 8: Ystyriaethau Strategol, Gwleidyddol a Pholisi Ehangach

### 8.1 Galwad i ystyried effaith polisïau dalgylch, derbyn, tai a demograffeg ar gynaliadwyedd ysgolion a chymunedau gwledig

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai ymatebwyr yn gosod y cynnig mewn cyd-destun strategol ehangach, ac yn dadlau nad yw'n ddigon edrych ar Ysgol Nebo ar wahân i bolisïau dalgylchoedd, trefniadau derbyn, tai, demograffeg a dyfodol cymunedau gwledig. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Fodd bynnag, nodir mai ffocws y broses statudol hon yw dyfodol Ysgol Nebo, ac fe gynhelir y broses yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). Mae’r adolygiad presennol wedi’i seilio ar yr heriau sy’n wynebu’r ysgol, gan gynnwys niferoedd dysgwyr isel parhaus, canran uchel o lefydd gweigion, |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd y sylwadau hyn yn aml yn feirniadol o'r ffordd y mae penderfyniadau ehangach yn cael effaith ar niferoedd disgyblion mewn ysgolion bach. | dosbarthiadau bach gydag ystodau oedran eang, a rhagamcanion sy’n nodi bod niferoedd dysgwyr yn debygol o barhau’n isel. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i batrymau dalgylch a’r ffaith bod mwyafrif y dysgwyr sy’n byw yn nalgylch Ysgol Nebo yn mynychu ysgolion eraill.<br><br>Mae’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**8.2 Cyfeiriadau at bolisi Plaid Cymru a’r ymrwymiad i ddiogelu ysgolion bach gwledig a gwasanaethau cymunedol**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bolisi Plaid Cymru ar ysgolion gwledig bach, gan nodi bod Maniffesto Etholiad Senedd 2026 y blaid yn cefnogi'r rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig drwy'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.<br><br>Dadleuwyd mai nod y polisi hwn yw amddiffyn ysgolion bach rhag cau, gan gydnabod eu pwysigrwydd fel canolbwynt cymunedau cefn gwlad ac wrth ddiogelu addysg leol.<br><br>Nodwyd hefyd fod yr ymrwymiad i amddiffyn ysgolion bach yn rhan o bolisi ehangach i sicrhau bod cymunedau gwledig yn ffynnu ac nad ydynt yn colli gwasanaethau hanfodol. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae’r Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018) yn cyflwyno trefniadau arbennig mewn perthynas ag ysgolion gwledig drwy sefydlu rhagdybiaeth weithdrefnol yn erbyn eu cau. Nid yw hyn yn golygu na fydd ysgol wledig byth yn cau ond yn hytrach fod yn rhaid i'r achos dros ei chau fod yn gryf, a bod pob opsiwn ymarferol arall wedi'u hystyried yn gydwybodol. Mae Ysgol Nebo wedi’i dynodi’n ysgol wledig at ddibenion y Cod, ac o ganlyniad mae’n ofynnol dilyn cyfres ychwanegol o weithdrefnau a meini prawf wrth ystyried unrhyw gynnig i’w chau.<br><br>Mae’r Cyngor yn cadarnhau bod y cynnig wedi’i asesu’n benodol yn erbyn y ffactorau statudol sy’n berthnasol i ysgolion gwledig, gan gynnwys y rhagdybiaeth |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | weithdrefnol yn erbyn cau ysgolion gwledig. Mae’r Cyngor yn hyderus bod yr holl brosesau, asesiadau a gofynion ychwanegol a bennir yn y Cod ar gyfer ysgolion gwledig wedi’u dilyn yn llawn. Cyn cyflwyno’r cynnig ar gyfer ymgynghoriad statudol, cynhaliwyd yr asesiadau effaith perthnasol a rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i’r opsiynau amgen rhesymol a oedd wedi’u nodi bryd hynny. Yn dilyn y cyfnod ymgynghori, rhoddwyd ystyriaeth lawn hefyd i’r opsiwn amgen a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethol Ysgol Nebo ac i’r wybodaeth a’r dystiolaeth ychwanegol a ddaeth i law. |

**8.3 Galwad i adolygu trefniadau dalgylch a derbyn er mwyn cynyddu niferoedd mewn ysgolion lleol a chefnogi’r Gymraeg**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Codwyd materion dalgylch a threfniadau derbyn gan rai ymatebwyr.<br><br>Dadleuwyd y dylai Cyngor Gwynedd fod yn fwy rhagweithiol wrth geisio sicrhau bod plant yn mynychu eu hysgolion lleol, a chwestiynwyd pam fod nifer o blant yn dewis ysgolion eraill.<br><br>Awgrymwyd y gallai adolygu polisi derbyn helpu i gynnal ysgolion bach gwledig a chefnogi dyfodol y Gymraeg.<br><br>Cyfeiriwyd at enghraifft o 11 o blant o'r un pentref yn mynychu ysgolion eraill yn lle'r ysgol leol. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Mae trefniadau derbyn ysgolion yn cael eu gweinyddu yn unol â Pholisi Derbyn Ysgolion y Cyngor a’r fframwaith statudol cenedlaethol perthnasol.<br><br>O fewn y drefn hon, mae gan rieni a gofalwyr yr hawl i fynegi dewis ynghylch yr ysgol y maent yn dymuno i’w plentyn ei mynychu, yn amodol ar gapasiti yr ysgolion a’r meini prawf derbyn a nodir yn y polisi. Caiff y trefniadau hyn eu cymhwyso’n gyson ar draws y Sir. |

**8.4 Pryderon ynghylch effaith tai gwag, ail gartrefi a pholisïau cynllunio ar gymunedau gwledig a niferoedd dysgwyr**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyfeiriodd rhai at dai gwag ac ystadau newydd lleol yng nghyd-destun y gostyngiad mewn niferoedd disgyblion.<br><br>Cwestiynodd rhai ymatebwyr pam nad oedd y tai hyn yn cael eu rhoi i bobl leol, gan ddadlau bod hyn yn cael effaith ar gymunedau lleol a niferoedd disgyblion mewn ysgolion gwledig.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at dai haf, ail gartrefi a pholisïau cynllunio fel ffactorau sy'n cyfrannu at ddirywiad cymunedau gwledig Cymraeg. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Fel rhan o'r broses statudol, rhoddwyd ystyriaeth i ystod o ffactorau, gan gynnwys data diweddaraf am niferoedd dysgwyr a'r rhagamcanion ar gyfer y dyfodol. Er bod rhai ymatebwyr wedi awgrymu y gallai twf yn y boblogaeth neu newidiadau i bolisïau tai gynyddu niferoedd dysgwyr yn y dyfodol, dengys y wybodaeth oedd ar gael i'r Cyngor fod niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo yn isel iawn ar hyn o bryd ac y rhagwelir y byddant yn parhau'n isel dros y blynyddoedd nesaf.<br><br>Mae hyn yn adlewyrchu tuedd ddemograffig ehangach, gan gynnwys y diboblogi sy'n effeithio ar gymunedau gwledig. Rhwng 2011 a 2021, gostyngodd poblogaeth Gwynedd 3.7%, sef gostyngiad o 4,477 o bobl. Nid yw'r gostyngiad hwn wedi ei neilltuo i gymunedau gwledig yn unig. Yn ystod yr un cyfnod, gwelwyd gostyngiad o 7.3% yn nifer y plant 0–15 oed a gostyngiad o 14.7% yn nifer y bobl ifanc 16–24 oed.<br><br>Yn benodol, nodir niferoedd isel o ddysgwyr, canran uchel iawn o lefydd gweigion, a rhagamcanion niferoedd sy'n awgrymu parhad y sefyllfa fregus yn y tymor canolig a hir, ynghyd ag amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau bychain sy'n cyflwyno heriau addysgol. Mae'r ffactorau hyn wedi arwain at ystyried a ellir cynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y trefniadau presennol.<br>Mae'r Cyngor o'r farn y byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i'r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy'n parhau'n isel, a'r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran; |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | • Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**8.5 Pryderon ynghylch blaenoriaethau gwariant, moderneiddio addysg a gwerth parhaus ysgolion bach gwledig**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Yn ogystal, cododd rhai ymatebwyr bryder ynghylch yr hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel gormod o bwyslais ar foderneiddio addysg a dulliau newydd o ddysgu.<br><br>Cyfeiriwyd hefyd at gynnydd yn nifer gwleidyddion Bae Caerdydd, gan gwestiynu sut y gellid cyfiawnhau costau o'r fath tra'n dadlau bod ysgolion bach yn rhy gostus.<br><br>Cyfeiriwyd at enghreifftiau o'r gorffennol i ddadlau bod ysgolion bach gwledig yn darparu addysg gadarn a bod gwerth parhaus i'r model hwnnw heddiw. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Datblygwyd y cynnig i gau Ysgol Nebo oherwydd bod nifer o heriau yn wynebu’r ysgol. Yn benodol, niferoedd isel o ddysgwyr, canran uchel iawn o lefydd gweigion, a rhagamcanion niferoedd sy’n awgrymu parhad y sefyllfa fregus yn y tymor canolig a hir, ynghyd ag amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau bychain sy’n cyflwyno heriau addysgol. Mae’r ffactorau hyn wedi arwain at ystyried a ellir cynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y trefniadau presennol.<br><br>Mae’r sylwadau ynghylch gwariant gwleidyddol a threfniadau cenedlaethol ehangach y tu hwnt i gwmpas y broses statudol hon. Mae’r cynnig presennol wedi’i asesu ar sail amgylchiadau penodol Ysgol Nebo a’r wybodaeth berthnasol am ei darpariaeth.<br><br>Mae’r Cyngor o’r farn y byddai’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br><br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**8.6 Sylwadau ynghylch cyfrifoldeb gwleidyddol am benderfyniadau blaenorol**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nododd rhai ymatebwyr fod Cyngor Gwynedd, yn y gorffennol, wedi rhoi'r bai am benderfyniadau a oedd yn peryglu dyfodol ysgolion ar bwysau a rheolau Llywodraeth Cymru a'r Blaid Lafur.<br><br>O ystyried bod Plaid Cymru bellach wrth y llyw, cwestiynwyd a ddylai fod modd dileu neu osgoi penderfyniadau fel y cynnig hwn. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), mater i'r cynigydd yw penderfynu a ddylid cymeradwyo cynnig trefniadaeth ysgolion yn dilyn cwblhau'r broses statudol, gan roi ystyriaeth i'r holl wybodaeth berthnasol, gan gynnwys yr ymatebion a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd. Yn achos y cynnig hwn, Cyngor Gwynedd yw'r cynigydd ac, felly, y Cabinet fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch y cynnig.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Cod hefyd yn darparu mecanwaith statudol sy'n galluogi cyrff penodedig i gyfeirio penderfyniad awdurdod lleol at Weinidogion Cymru i'w ystyried. Mae'r broses benderfynu, gan gynnwys unrhyw hawl i gyfeirio'r penderfyniad, yn cael ei llywodraethu gan y fframwaith statudol perthnasol, ni waeth pa blaid wleidyddol sydd mewn grym ar lefel leol neu genedlaethol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y cynnig wedi'i ddatblygu a'i ystyried yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). |

## Thema 9: Dyfodol adeilad Ysgol Nebo, ei ddefnydd cymunedol a'r gofeb ryfel

**9.1 Pryderon ynghylch ôl-ddefnydd yr adeilad a'i bwysigrwydd fel ased cymunedol**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Nodwyd pryderon ynghylch ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol pe byddai'r ysgol yn cau, gan nodi hefyd fod yr adeilad yn ased cymunedol pwysig, nid yn adeilad ysgol yn unig. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyfeiriwyd at yr adeilad fel gofod sy'n cynnal gweithgareddau cymdeithasol, ieithyddol, gwirfoddol a chyhoeddus, ac fel rhan o seilwaith cymunedol Nebo a Nasareth. | Nebo ar y gymuned leol. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried y sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiad ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o'r broses.<br><br>Dengys yr asesiad y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nebo fel canolbwynt cymunedol. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a'r cyfnod gwrthwynebu ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni eisoes yn bodoli.<br><br>Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Nebo, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen.<br><br>Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |

**9.2 Pryderon ynghylch dyfodol yr adeilad a cholli adnodd cymunedol**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Roedd rhai ymatebwyr yn nodi y byddai colli mynediad at yr adeilad yn golygu colli gallu'r gymuned i gynnal gweithgareddau lleol, gan gynnwys cyfarfodydd, dosbarthiadau Cymraeg, digwyddiadau cymdeithasol a gweithgareddau gwirfoddol.<br><br>Roedd hyn yn cael ei weld fel colled gymunedol ehangach, nid fel mater ystadau yn unig.<br><br>Nodwyd pryder nad yw dyfodol yr adeilad a'r safle yn fater gweinyddol yn unig, ond yn fater sy'n ymwneud â hunaniaeth, cof, defnydd cymunedol a gallu'r pentref i barhau i gynnal gweithgarwch lleol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), cynhaliodd y Cyngor Asesiad Effaith ar y Gymuned er mwyn asesu effaith debygol y cynnig i gau Ysgol Nebo ar y gymuned leol. Mae'r asesiad hwn wedi'i adolygu a'i ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, gan ystyried y sylwadau a'r materion a godwyd gan ymgynghorai. Yn ogystal, adolygwyd a diweddarwyd yr asesiad ymhellach yn dilyn y cyfnod gwrthwynebu statudol er mwyn ystyried y gwrthwynebiadau a'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cam hwnnw o'r broses.<br><br>Dengys yr asesiad y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Nebo, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nebo fel canolbwynt cymunedol. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad a'r cyfnod gwrthwynebu ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (78%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Llanllyfni (44%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos, gan gynnwys cymuned Llanllyfni eisoes yn bodoli.<br><br>Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Nebo, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nebo a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen.<br><br>Yn ogystal, nodir pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |

**9.3 Pryderon ynghylch dyfodol, stiwardiaeth a gwarchodaeth y gofeb ryfel**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Mynegodd un ymatebydd wrthwynebiad i'r hyn a ddisgrifiwyd ganddynt fel cynlluniau i werthu'r gofeb ryfel i fuddiannau preifat.<br><br>Gwrthwynebwyd hefyd unrhyw fwriad i drosglwyddo neu ildio cyfrifoldebau'r Awdurdod dros stiwardiaeth a gwarchodaeth y gofeb.<br><br>Codwyd pryder pellach ynghylch yr hyn a ddisgrifiwyd fel cynnwys gwerthiant y gofeb o fewn y cynllun cau ysgol heb hysbysiad ar wahân nac ymgynghoriad cyhoeddus penodol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad a safle'r ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.<br><br>Yn y cyd-destun hwn, bydd unrhyw ystyriaethau sy'n ymwneud â'r gofeb ryfel hefyd yn ffurfio rhan o'r broses ôl-ddefnydd ac yn cael eu hystyried fel rhan o'r trafodaethau hynny.<br><br>Nid yw'r cynnig statudol presennol yn cynnwys penderfyniad i werthu'r gofeb ryfel, newid ei pherchnogaeth na throsglwyddo cyfrifoldeb am ei stiwardiaeth a'i gwarchodaeth. Byddai unrhyw benderfyniadau pellach ynghylch dyfodol y gofeb yn cael eu hystyried ar wahân ac yn unol â'r gofynion a'r trefniadau perthnasol fel rhan o'r broses ôl-ddefnydd, pe byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael ei gymeradwyo. |

## Thema 10: Gwrthwynebiad i'r cynnig a galwadau i ailystyried

### 10.1 Gwrthwynebiadau ffurfiol i'r cynnig i gau Ysgol Nebo

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cafwyd nifer o wrthwynebiadau ffurfiol clir i'r cynnig i gau Ysgol Nebo. Roedd rhai yn ddatganiadau uniongyrchol o wrthwynebiad, tra bod eraill yn defnyddio iaith gryfach, gan ddisgrifio'r cynnig i gau'r ysgol fel un siomedig, creulon neu debygol o gael effaith ddinistriol ar y gymuned, y disgyblion neu'r ysgol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r gwrthwynebiadau. |

### 10.2 Cais i ailystyried neu atal y broses er mwyn asesu'r effeithiau ac ystyried dyfodol ysgolion gwledig

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Gofynnodd nifer o ymatebwyr i'r Cyngor ailystyried, atal y broses cau neu beidio â chadarnhau'r penderfyniad ar hyn o bryd.<br><br>Roedd hyn yn aml yn cael ei gysylltu â'r farn nad yw'r holl bwyntiau wedi'u hystyried yn llawn, gan gynnwys effaith ariannol, addysgol, ieithyddol a chymunedol y cynnig.<br><br>Mynegodd rhai ymatebwyr y dylid pwyllo ac ystyried ffyrdd amgen o gynnal ysgolion bach gwledig yn hytrach na bwrw ymlaen â'u cau. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu a'i ystyried yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys cynnal ymgynghoriad statudol, cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori, cyhoeddi hysbysiad statudol, darparu cyfnod gwrthwynebu a llunio Adroddiad Gwrthwynebu.<br><br>Mae'r Cyngor yn hyderus fod y broses statudol wedi'i dilyn yn llawn a bod yr holl wybodaeth berthnasol a gyflwynwyd drwy'r broses wedi cael ei hystyried. Mae hyn yn cynnwys ystyriaeth o'r effeithiau addysgol, ariannol, cymunedol ac ieithyddol, ynghyd â'r opsiynau amgen rhesymol a'r sylwadau a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu.<br><br>Er bod rhai ymatebwyr wedi galw am atal neu ohirio'r broses neu ailystyried y cynnig, barn y Cyngor yw bod y cynnig wedi ei asesu yn unol â'r gofynion statudol perthnasol. |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | Datblygwyd y cynnig i gau Ysgol Nebo mewn ymateb i nifer o heriau sy’n wynebu’r ysgol. Yn benodol, nodir niferoedd isel o ddysgwyr, canran uchel iawn o lefydd gweigion, a rhagamcanion niferoedd sy’n awgrymu parhad y sefyllfa fregus yn y tymor canolig a hir, ynghyd ag amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau bychain sy’n cyflwyno heriau addysgol. Mae’r ffactorau hyn wedi arwain at ystyried a ellir cynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y trefniadau presennol.<br>Mae’r Cyngor o’r farn y byddai’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**10.3 Galwad i ystyried atebion amgen er mwyn diogelu a chryfhau dyfodol Ysgol Nebo a’r gymuned leol**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| Mynegwyd barn gan rai ymatebwyr fod modd dod o hyd i atebion amgen a fyddai'n diogelu dyfodol yr ysgol, gan gyfeirio at opsiynau megis buddsoddi mewn adnoddau, adolygu trefniadau derbyn ac archwilio modelau cydweithredol rhwng ysgolion lleol.<br><br>Nododd rhai ymatebwyr, os yw Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gynnal cymunedau gwledig cynaliadwy a sicrhau'r cyfleoedd gorau i blant lleol, y dylid diogelu ac atgyfnerthu ysgolion fel Ysgol Nebo yn hytrach na'u cau, fel y gallant barhau i wasanaethu plant, teuluoedd a'r gymuned leol yn y tymor hir. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Fel rhan o'r adolygiad o ddyfodol Ysgol Nebo, rhoddwyd ystyriaeth i ystod o opsiynau amgen cyn dod i gasgliad ar y cynnig presennol. Cynhaliwyd gwerthusiad o'r opsiynau hyn cyn dechrau'r ymgynghoriad statudol, ac amlinellwyd y gwaith hwnnw yn y Ddogfen Ymgynghori a'r Papur Cynnig. Roedd yr opsiynau a aseswyd yn cynnwys, ymhlith eraill, gwneud dim, ffederaleiddio Ysgol Nebo gydag ysgol gyfagos, ffederaleiddio ochr yn ochr â sefydlu darpariaeth arbenigol ar gyfer |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
| --- | --- |
| | dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, sefydlu ysgol aml-safle, a datblygu defnyddiau addysgol arbenigol eraill ar gyfer safle'r ysgol.<br><br>Yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol, derbyniwyd cynigion ac opsiynau ychwanegol gan ymgynghoreion. Rhoddwyd ystyriaeth lawn iddynt hefyd, a chynhaliwyd gwerthusiad pellach o’r opsiynau amgen ochr yn ochr â'r opsiynau a aseswyd yn wreiddiol. Mae manylion yr opsiynau a ystyriwyd, ynghyd â chanlyniadau'r gwerthusiad hwnnw, wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r dogfennau ategol perthnasol. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd yn www.gwynedd.llyw.cymru/moderneiddioaddysg .<br><br>Yn dilyn y gwaith gwerthuso hwn, daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr opsiynau amgen a ystyriwyd yn darparu ymateb digonol na chynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu'r ysgol. Er enghraifft, ni ragwelwyd y byddai opsiynau megis ffederaleiddio neu ysgol aml-safle ynddynt eu hunain yn arwain at gynnydd ystyrlon yn nifer y dysgwyr nac yn mynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n ymwneud â'r lefel uchel o leoedd gwag, y rhagamcanion niferoedd isel parhaus a'r costau cysylltiedig.<br><br>Drwy gydol y broses statudol, dilynodd y Cyngor y gofynion a nodir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd ystyriaeth i'r wybodaeth a thystiolaeth berthnasol, gan gynnwys yr asesiadau effaith, yr opsiynau amgen a ystyriwyd, a'r sylwadau a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu statudol.<br><br>Yn sgil hynny, daethpwyd i'r casgliad mai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yw'r opsiwn a fyddai’n darparu'r ymateb mwyaf priodol i'r heriau a nodwyd, sef niferoedd isel o ddysgwyr, cyfran uchel iawn o leoedd gwag, dosbarthiadau bach gydag amrediad oedran eang, rhagamcanion niferoedd isel parhaus, patrwm dalgylch lle mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn dewis mynychu ysgolion eraill, a chost fesul dysgwr sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd sirol. |

**10.4 Cais i ohirio'r penderfyniad, cynnal asesiadau effaith llawn a rhoi ystyriaeth briodol i safbwyntiau rhanddeiliaid**

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Galwyd am ohirio unrhyw benderfyniad terfynol nes bod gwaith pellach ar anghenion dysgwyr wedi'i gwblhau ac am gynnal asesiad llawn o effaith ariannol, addysgol, gymunedol ac ieithyddol y cynnig.<br><br>Pwysleisiwyd hefyd yr angen i roi ystyriaeth briodol i safbwyntiau'r plant, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned leol. | Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau.<br><br>Mae'r cynnig wedi'i ddatblygu a'i ystyried yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan gynnwys cynnal ymgynghoriad statudol, cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori, cyhoeddi hysbysiad statudol, darparu cyfnod gwrthwynebu a llunio Adroddiad Gwrthwynebu.<br><br>Mae'r Cyngor yn hyderus fod y broses statudol wedi'i dilyn yn llawn a bod yr holl wybodaeth berthnasol a gyflwynwyd drwy'r broses wedi cael ei hystyried yn unol â gofynion y Cod. Yn ogystal â rhoi ystyriaeth i'r sylwadau a'r gwrthwynebiadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu, cynhaliwyd asesiadau penodol o effaith y cynnig ar y Gymraeg a'r gymuned. Adolygwyd a diweddarwyd yr asesiadau perthnasol yn dilyn y cyfnodau ymgynghori a gwrthwynebu er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei hystyried fel rhan o'r broses benderfynu.<br><br>Yn unol â gofynion y Cod, cynhaliwyd ymgynghoriad pwrpasol â dysgwyr hefyd er mwyn casglu a deall eu barn am y cynnig. Cofnodwyd a chrynhowyd y safbwyntiau a fynegwyd gan y dysgwyr fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori ac fe'u hystyriwyd ochr yn ochr â'r holl ymatebion eraill a dderbyniwyd.<br><br>Er bod rhai ymatebwyr wedi galw am ohirio'r broses neu ailystyried y cynnig, barn y Cyngor yw bod y cynnig wedi cael ei asesu'n gynhwysfawr yn erbyn y gofynion statudol perthnasol, gan gynnwys yr effeithiau addysgol, cymunedol ac ieithyddol, ynghyd ag ystyriaeth o opsiynau amgen a gyflwynwyd yn ystod y broses.<br><br>Datblygwyd y cynnig i gau Ysgol Nebo mewn ymateb i nifer o heriau sy'n wynebu'r ysgol. Yn benodol, nodir niferoedd isel o ddysgwyr, canran uchel iawn o leoedd gweigion, a rhagamcanion niferoedd sy'n awgrymu parhad y sefyllfa fregus yn y |

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | tymor canolig a hir, ynghyd ag amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau bychain sy’n cyflwyno heriau addysgol. Mae’r ffactorau hyn wedi arwain at ystyried a ellir cynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y trefniadau presennol.<br><br>Mae’r Cyngor o’r farn y byddai’r cynnig i gau Ysgol Nebo yn mynd i’r afael â’r heriau hyn drwy:<br>• Ymateb i’r her o niferoedd dysgwyr isel yn Ysgol Nebo, ynghyd â rhagamcanion sy’n parhau’n isel, a’r ganran uchel o leoedd gwag;<br>• Cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• Gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio’n ddyddiol â chyfoedion, mewn amgylchedd addysgol gyda mwy o ddysgwyr o’r un oedran;<br>• Lleihau’r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir. |

**10.5 Cais i ohirio’r penderfyniad hyd nes cwblhau gwaith pellach ar ddarpariaeth ADY ac ystyried rôl bosibl Ysgol Nebo**

| Crynodeb o’r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| Cyflwynwyd hefyd geisiadau penodol i ohirio penderfyniad terfynol nes bod gwaith pellach ar ADY wedi'i gyhoeddi a'i ystyried, yn enwedig adroddiad Medi 2026.<br><br>Roedd rhai ymatebwyr yn dadlau nad yw'n gwneud synnwyr cau Ysgol Nebo cyn gweld a allai'r ysgol fod yn rhan o ateb ehangach i anghenion plant sy'n cael trafferth mewn addysg brif ffrwd neu sydd angen amgylchedd llai a mwy cefnogol. | Mae’r Cyngor yn nodi’r sylwadau.<br><br>Datblygwyd y cynnig i gau Ysgol Nebo yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gan roi ystyriaeth i’r ffactorau statudol perthnasol, y dystiolaeth a gasglwyd, a’r sylwadau a dderbyniwyd drwy’r broses statudol.<br><br>Nodir bod niferoedd isel o ddysgwyr, canran uchel iawn o leoedd gweigion, a rhagamcanion niferoedd sy’n awgrymu parhad y sefyllfa fregus yn y tymor canolig a’r tymor hir, ynghyd ag amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau bychain sy’n cyflwyno heriau addysgol. Mae’r ffactorau hyn wedi arwain at ystyried a ellir |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | cynnal darpariaeth addysgol gynaliadwy yn y tymor hir o fewn y trefniadau presennol.<br><br>Mae'r Cyngor o'r farn y byddai'r cynnig i gau Ysgol Nebo yn mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy:<br><br>• ymateb i'r niferoedd isel o ddysgwyr yn Ysgol Nebo, ynghyd â'r rhagamcanion sy'n parhau'n isel a'r ganran uchel o leoedd gweigion;<br>• cynnig dosbarthiadau o faint ac ystod oedran mwy addas;<br>• gwella cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu a chydweithio'n ddyddiol â chyfoedion mewn amgylchedd addysgol sydd â mwy o ddysgwyr o'r un oedran; a<br>• lleihau'r gost fesul dysgwr ar gyfer holl ddysgwyr y Sir.<br><br>Mewn perthynas â'r ceisiadau i ohirio penderfyniad terfynol hyd nes cyhoeddi ac ystyried yr Adroddiad ADY ym mis Medi 2026, nodir y cyflwynwyd opsiwn amgen Corff Llywodraethol Ysgol Nebo yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol. Yn dilyn diwedd y cyfnod hwnnw, rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r opsiwn, ochr yn ochr â'r sylwadau a'r dystiolaeth ychwanegol a gyflwynwyd drwy'r broses.<br><br>Roedd yr opsiwn hwn yn cynnig defnyddio safle'r ysgol fel darpariaeth i gefnogi a meithrin plant ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol sy'n ei chael yn heriol mewn addysg brif ffrwd, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, yn ogystal â dysgwyr ag anghenion iechyd meddwl, gan gynnwys pryder a niwroamrywiaeth.<br><br>Gwerthuswyd yr opsiwn amgen hwn yn erbyn nifer o ffactorau, sef niferoedd dysgwyr a lleoedd gweigion, maint dosbarthiadau ac amrediad oedran, arweinyddiaeth a staffio, adnoddau ariannol, y gymuned, yr iaith Gymraeg a ffactorau daearyddol. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg, trefniadau teithio a'r gymuned. |

| Crynodeb o'r materion | Ymateb y Cyngor |
|---|---|
| | Daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r opsiwn yn ymateb yn ddigonol i'r prif heriau sy'n wynebu Ysgol Nebo. Ni ragwelwyd y byddai'r opsiwn yn cynyddu niferoedd dysgwyr Ysgol Nebo. O ganlyniad, rhagwelwyd y byddai niferoedd isel, dosbarthiadau bychain ac amrediad oedran eang yn parhau, ynghyd â'r heriau ariannol cysylltiedig.<br><br>Ar sail y gwerthusiad hwn, ni ddaethpwyd i'r casgliad bod yr opsiwn amgen yn darparu sail ddigonol i newid y cynnig nac i ohirio penderfyniad terfynol hyd nes cyhoeddi'r adroddiad ar ddarpariaeth ADY ym mis Medi 2026. Mae'r Cyngor yn hyderus bod yr opsiwn amgen a gyflwynwyd gan y Corff Llywodraethol wedi cael ystyriaeth lawn fel rhan o'r broses statudol, a gynhaliwyd yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).<br><br>Pe byddai penderfyniad yn cael ei wneud i weithredu'r cynnig i gau Ysgol Nebo, byddai trefniadau pontio priodol a chefnogaeth addas yn cael eu hystyried a'u cynllunio ar gyfer pob dysgwr, gan gynnwys y rhai ag ADY, yn unol â'u hanghenion unigol. |